

# Newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ynghylch cyflogau'r Aelodau yn y Pumed Cynulliad

**Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Tachwedd 2014

## Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a gafodd Gysyniad Brenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**
**Yr Athro Laura McAllister**

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Gareth Price**, Clerc
**Dan Collier**, Dirprwy Glerc

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: 029 2089 8566

E-bost: **Taliadau@cymru.gov.uk**

# Cynnwys


**Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ... 4**

**Rhagarweiniad ... 4**

**Rhagair ... 7**

**01. Rhwymedigaethau ac egwyddorion ... 8**

Diben strategol ... 9

Yn iawn i Gymru ... 9

Gwerth am Arian ... 9

**02. Methodoleg ... 10**

Sut yr aethom ati ... 10

**03. Cyd-destun ... 12**

Rôl newidiol Aelod Cynulliad ... 12

Maint y Cynulliad ... 13

Sut y mae taliadau Aelodau'r Cynulliad wedi newid ... 14

Aelodau etholedig mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU ... 15

**04. Cyflog Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad ... 17**

Ein dull a'n rhesymeg ... 17

Cyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad ... 18

Pecyn llawn y taliadau ... 19

Data i lywio ein penderfyniad ... 19

Cyflog Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad - ein casgliad ... 25

Mynegeio ... 27

**05. Cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi ... 28**

Rolau sy'n derbyn tâl ... 28

Rolau Llywodraeth Cymru ... 29

Rolau'r Cynulliad Cenedlaethol ... 33

**06. Crynodeb o'r cynigion a'r cwestiyau ... 39**

Ein cynigion ... 39

Cwestiynau'r ymgynghoriad ... 39

**07. Atodiad A ... 41**

Tablau data ychwanegol ... 41

**08. Atodiad B ... 44**

Crynodeb o ganlyniadau arolwg yr Aelodau ... 44

# Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Os hoffech ymateb, anfonwch gopi electronig o'ch sylwadau at: **Taliadau@cymru.gov.uk** a rhowch y teitl canlynol ar yr e-bost, "Ymgynghoriad – Cyflogau Aelodau'r Cynulliad."

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

**Gareth Price, Clerc**
**Y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd, CF99 1NA**

Dylai unrhyw sylwadau gyrraedd erbyn 12 Ionawr 2014. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich sylwadau, cadwch y canlynol mewn cof:

- dylai eich ymateb gyfeirio at y cwestiynau a ofynnwyd gan y Bwrdd. Er hwylustod, nodir y rhain ym Mhennod 6, tablau 11 a 12.
- er mwyn bod yn dryloyw, mae'r Bwrdd Taliadau wedi cytuno y bydd fel arfer yn rhoi ymatebion i ymgyngoriadau cyhoeddus ar ein tudalennau gwe. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno eich sylwadau.

# Rhagarweiniad

Rôl y Bwrdd Taliadau yw pennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Mae ein deddfwriaeth sefydlu yn nodi'n glir ein bod yn gorff annibynnol, ac er ein bod yn ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad ac yn gwrando ar eu sylwadau, nid oes ganddynt rôl ffurfiol yn y penderfyniadau a wneir gennym. Mae hyn yn bwysig. Arweiniodd Cymru y blaen yn y DU drwy symud y penderfyniadau ynghylch taliadau a chymorth ariannol ei wleidyddion cenedlaethol o ddwylo'r gwleidyddion eu hunain yn gyfan gwbl. Felly, ein cyfrifoldeb ni'n unig yw'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon.

Fel swyddogion annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau, ein nod yw pennu lefelau cyflog a phensiwn sy'n briodol ar gyfer cyfrifoldebau cynyddol y sefydliad democrataidd pwysicaf yng Nghymru. Nid ydym yn sôn mwyach am y Cynulliad newydd a sefydlwyd ym 1999. Bydd y Pumed Cynulliad, sy'n dechrau yn 2016, yn senedd lawn fel y rheini yn San Steffan a'r Alban, gyda mwy o bwerau deddfu a phennu trethi, a dylanwad pellgyrhaeddol ar fywyd yng Nghymru.

Yn sgil cyfrifoldebau newydd, bydd disgwyliadau newydd ar Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am awdurdodi tua £15 biliwn o wariant i ariannu'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n goruchwylio ac yn herio gweithrediadau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru; mae'n deddfu ar gyfer Cymru, ac mae'n cynrychioli buddiannau pob dinesydd. Rydym yn cynnig cynnydd sylweddol yng nghyflogau Aelodau'r Cynulliad i adlewyrchu pwysau'r cyfrifoldebau sydd bellach ar eu hysgwyddau a'r cymwyseddau y mae'n rhaid iddynt eu cael i gyflawni eu rolau.

Mae'r pecyn taliadau cyffredinol yr ydym yn ei gynnig wedi'i lunio i wobrwyo'n briodol y rheini sydd â'r lefel hon o gyfrifoldeb. Mae wedi'i lunio fel na ddylai ystyriaethau ariannol atal unigolion talentog rhag ceisio cael eu hethol am resymau ariannol. Y gobaith yw y bydd y pleidiau gwleidyddol a phobl Cymru o'r un farn â ni o ran safiad y Cynulliad Cenedlaethol, safon yr unigolion y dylent ddisgwyl iddynt sefyll etholiad, a lefel y perfformiad a ddylai fod yn ofynnol ohonynt.

Dylid darllen y ddogfen ymgynghori hon ar y cyd â'r cynigion blaenorol a wnaed gennym mewn perthynas â phensiynau[1], oherwydd, gyda'i gilydd, mae cyflog a phensiwn yn cynrychioli cyfanswm y taliadau a gaiff Aelodau'r Cynulliad. Bydd y newidiadau sylweddol a gynigir gennym i gynllun pensiwn yr Aelodau yn ei wneud yn llai hael – bydd yr Aelodau'n talu rhywfaint yn fwy o gostau'r pensiwn eu hunain, a bydd trethdalwyr yn talu llai tuag at y pensiwn a bydd llai o risg iddynt. Dylai'r newidiadau hyn i'r pensiwn wneud y trefniadau'n fwy fforddiadwy yn yr hirdymor.

Yn 2015-16, rhagwelir y bydd costau cyflogau, cyflogau ychwanegol a chyfraniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn £5.2 miliwn. Yn gyffredinol, byddai'r pecyn hwn o gynigion

---

[1] ***Ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol***, *y Bwrdd Taliadau, Gorffennaf 2014*

ar gyfer 2016-17 yn ychwanegu £286,000 at gost cyflogau, cyflogau deiliaid swyddi a chyfraniadau pensiwn.

Byddai rhai'n dweud nad dyma'r amser i dalu cyflogau uwch. Ond dyma'r amser rhesymegol. Ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, mae'r Aelodau wedi gweld newid yn eu cyfrifoldebau, ac maent yn parhau i gynyddu. Nid mater o dalu mwy am yr un peth mohono: mae hon bellach yn swydd newydd sy'n galw am lefel newydd o daliadau i adlewyrchu ei natur wahanol o ran ansawdd. Rydym wedi gweithio i nodi lefel briodol, deg a rhesymol o daliadau ar gyfer yr Aelodau ar ddechrau'r Pumed Cynulliad. Ar ôl ailbennu'r lefel, rydym yn bwriadu cysylltu eu cyflogau wedi hynny ag enillion y bobl a wasanaethir ganddynt. Os bydd cyflogau yng Nghymru yn codi, bydd cyflogau Aelodau'r Cynulliad hefyd yn codi. Os na fydd cyflogau'n newid, neu os byddant yn gostwng, bydd cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn gwneud yr un peth.

Yn ogystal â'n cynigion ar gyfer cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu taliadau ychwanegol y rheini sy'n ddeiliaid swyddi yn y Cynulliad, neu sy'n Weinidogion y Llywodraeth. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn gofyn am gael barn ar ein cynigion ar gyfer y deiliaid swyddi hyn.

Rydym yn cydnabod y bydd cynigion i godi cyflogau gwleidyddion bob amser yn arwain at ymateb gan y cyhoedd, y cyfryngau, a chan y gwleidyddion eu hunain. Mae'n bwysig bod y rhesymeg a'r dystiolaeth y tu ôl i'r prif ffigurau yn cael eu deall yn iawn a dyna pam ein bod wedi cynnwys y rhain yn fanwl yn ein dogfen ymgynghori. Y gobaith yw y bydd ein cynigion yn arwain at drafodaeth ystyriol a chymedrol ynghylch rôl taliadau o ran dylanwadu ar gryfder a llwyddiant y Cynulliad yn y dyfodol. Felly, os oes gennych sylwadau, darllenwch y ddogfen ymgynghori hon, ystyriwch y rhesymau dros ein cynigion a chyfrannwch at ein trafodaethau.

Ar ddechrau 2015, byddwn yn ymgynghori eto ar y pecyn cyfan o gyflog, pensiwn, lwfansau a chymorth, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ym mis Mai. Bydd hyn yn rhoi blwyddyn o rybudd o'r taliadau a'r cymorth ariannol y gall unrhyw un sy'n bwriadu sefyll yn yr etholiad yn 2016 ddisgwyl eu cael.



**Sandy Blair CBE DL**
**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

# Rhagair

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi ein cynigion ar gyfer cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad, a fydd yn dechrau ym mis Mai 2016.

Mae Pennod 1 yn nodi rhwymedigaethau a dyletswyddau'r Bwrdd. Caiff rhai o'r rhain eu nodi yn y ddeddfwriaeth a greodd y Bwrdd. Mae rhai o'r rhain yn egwyddorion a bennwyd gan y Bwrdd ei hun yr ydym wedi cytuno y dylent lywio ein ffordd o feddwl.

Mae Pennod 2 yn ystyried ein methodoleg a'r dystiolaeth a ystyriwyd gennym.

Mae Pennod 3 yn ystyried cyd-destun rôl Aelodau'r Cynulliad a sut y mae wedi datblygu, yn ogystal â sut y mae'r taliadau wedi newid dros y blynyddoedd, yng Nghymru ac yn neddfwrfeydd y DU.

Mae Pennod 4 yn edrych yn fanwl ar sut y cyrhaeddwyd y cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, ac mae hefyd yn cynnwys y mynegai yr ydym yn cynnig ei ddefnyddio gyda'r cyflog sylfaenol dros bum mlynedd y Cynulliad nesaf.

Mae Pennod 5 yn trafod y rhesymau dros bob un o'r cynigion ar gyfer y deiliaid swyddi gweithredol amrywiol (rolau yn Llywodraeth Cymru).

Mae Pennod 6 yn gwneud yr un peth ar gyfer deiliaid swyddi yn y ddeddfwrfa (rolau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru).

Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad manylach o'r ffigurau a chyfanswm y costau yn sgil ein cynigion.

Mae Atodiad B yn rhoi crynodeb o ganlyniadau arolwg y Bwrdd o Aelodau'r Cynulliad.

# 01. Rhwymedigaethau ac egwyddorion

1. Mae gan y Bwrdd dair rhwymedigaeth statudol wrth bennu cyflogau, trefniadau ariannol eraill a lwfansau'r Aelodau. Caiff y rhain eu nodi yn y ddeddfwriaeth a greodd y Bwrdd[2], sef:

   – darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;

   – darparu adnoddau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Cynulliad; a

   – sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

2. O ran cyflogau'r Aelodau, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd wneud un penderfyniad yn unig ar gyfer pob Cynulliad oni bai ei fod o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn briodol ac yn rhesymol gwneud mwy nag un penderfyniad. Felly, mae angen inni wneud yn glir ymlaen llaw beth fydd trefniadau cyflog Aelodau'r Cynulliad ar gyfer pum mlynedd lawn y Cynulliad nesaf.

3. Ni fydd asesu'r ddau ofyniad canolog o ran taliadau - adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y rôl mewn ffordd deg, a pheidio ag atal y rheini sydd â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol - o reidrwydd yn arwain at yr un casgliad ynghylch y lefel briodol o gyflog. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ddefnyddio'r ddau brawf wrth wneud ein penderfyniadau a chael y cydbwysedd cywir.

4. Yn ogystal â'n rhwymedigaethau statudol, rydym yn ymrwymedig o hyd i'r tair egwyddor sy'n sail i'r penderfyniadau a ddisgrifiwyd yn ein hadroddiad yn 2011, *Addas i'r Diben*[3], Yr egwyddorion hynny yw:

   – **diben strategol**
   dylai ein Penderfyniad gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;

   – **iawn i Gymru**
   rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru; a

   – **gwerth am arian**
   dylai'r system o gymorth ariannol gynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr.

---

[2] *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*

[3] ***Addas i'r Diben***, *Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2011.*

## Diben strategol

5. Wrth ddylunio fframwaith ariannol sy'n cefnogi diben strategol y Cynulliad, rydym yn ddiolchgar i sawl Aelod Cynulliad blaenorol a phresennol sydd wedi rhannu eu safbwyntiau a'u profiadau o ran y rolau a wnaed ganddynt. Yn benodol, rydym yn ddiolchgar i'r Llywydd, Prif Weinidog Cymru, Arweinwyr y Pleidiau a Chomisiwn y Cynulliad am eu harweiniad ar yr heriau a wynebir gan y Cynulliad heddiw ac yn y dyfodol. Fel y disgrifiodd y Llywydd mewn gohebiaeth ym mis Mehefin 2014:

> The challenges for the remainder of this Assembly and for our successors after the 2016 election are significant. We must cement and develop our position as the national democratic forum for Wales and swim against the tide of disengagement and disillusionment with parliamentary politics that has stemmed largely from events in Westminster. It is certain that the Assembly will acquire new responsibilities over taxation and borrowing and likely that the extent of its policy responsibilities will be widened too. It will tackle these challenges with just 60 Members - small by international standards, smaller than many local authorities in Wales and by far the smallest legislature in the UK. This places an enormous burden on Members, in particular those in opposition and on the back benches who carry sole responsibility for legislative, financial and policy scrutiny.

6. Mae'n amlwg inni, er mwyn sicrhau ei ddiben strategol, bod angen Aelodau o'r radd flaenaf ar y Cynulliad – pobl sydd â rhinweddau arweinyddiaeth cryf, sy'n ddeallus, sy'n gwbl ymrwymedig i'w hetholwyr ond sy'n gallu gwneud penderfyniadau er budd cenedlaethol – a chyda'r penderfyniad a'r gwytnwch i fyw bywyd lle mae disgwyliadau uchel ohonynt, a lle mae llawer o graffu arnynt yn gyhoeddus.

## Yn iawn i Gymru

7. Credwn o hyd y dylai ein penderfyniadau ar gymorth ariannol a thaliadau Aelodau'r Cynulliad gael eu pennu yng nghyd-destun Cymru. Felly, yn yr ymgynghoriad hwn ar gyflog yr Aelodau, er ein bod wedi ystyried y trefniadau ar gyfer seneddwyr mewn lleoliadau eraill, rydym wedi gwneud ein penderfyniad drwy ystyried amgylchiadau sy'n benodol i Gymru.

## Gwerth am Arian

8. Yn ogystal â dyletswydd i roi i'r Aelodau Cynulliad y cymorth ariannol a'r taliadau sy'n briodol i'r swydd, rydym hefyd yn teimlo'n gryf bod yn rhaid inni sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae ein penderfyniadau ynghylch cyflogau a phensiynau a'r gyfundrefn dryloyw a theg a roddir ar waith gennym mewn perthynas ag ad-dalu costau angenrheidiol, wedi'u dylunio i gydbwyso'r ffactorau hynny.

# 02. Methodoleg

## Sut yr aethom ati

9. Ym mis Mawrth 2014, cynhaliodd y Bwrdd ddiwrnod o drafodaethau ag unigolion sydd â phrofiad a/neu ddealltwriaeth o'r Cynulliad. Roedd y trafodaethau – o dan reolau Chatham House – yn cwmpasu rôl strategol y Cynulliad, ac yn cynnwys pobl o'r tu mewn a'r tu allan i'r Cynulliad.

10. Estynnwyd gwahoddiad i bob Aelod Cynulliad i ymateb i e-arolwg dienw ar amrywiaeth o faterion – gan gynnwys taliadau sylfaenol a thaliadau i ddeiliaid swyddi – ym mis Mai 2014. Daeth 17 o arolygon wedi'u cwblhau i law[4]. Mae cyfradd ymateb o 28% yn golygu na ellir ystyried bod yr arolwg yn ganllaw pendant i farn Aelodau'r Cynulliad ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am farn Aelodau'r wrthblaid.

11. Cyflwynodd y Bwrdd dendr a chomisiynodd ddau adroddiad annibynnol i gefnogi ein gwaith ar daliadau'r Aelodau:

    – Bu Prifysgol Bangor yn ymchwilio i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sy'n ceisio dod yn Aelod Cynulliad ac a yw cyflog yn ffactor arwyddocaol yn y penderfyniad i sefyll. Mae ei hadroddiad - Gwerthuso'r rhwystrau i ddod i'r Cynulliad: Beth sy'n ein rhwystro rhag sefyll i gael ein hethol?[5] – ar gael i'w lawrlwytho. Mae ei gwaith yn cynnwys cyfweliadau ag 20 o bobl, gan gynnwys Aelodau blaenorol a chyfredol, yn ogystal ag ymgeiswyr blaenorol a swyddogion pleidiau.

    – Comisiynwyd yr HayGroup i gymharu pwysau a chyfrifoldebau'r amrywiaeth o rolau a wneir gan Aelodau'r Cynulliad[6]. Mae ei adroddiad[7] - Adroddiad ar werthuso rôl Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi - hefyd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein tudalennau gwe. Roedd ei waith yn cynnwys cyfweliadau â naw deiliad swydd gwahanol, yn ogystal ag Aelod o'r meinciau cefn.

12. Ym mis Mehefin, er mwyn llywio ein gwaith ar gyflogau'r Gweinidogion – yn benodol i gael gwell dealltwriaeth o natur a maint rolau'r Gweinidogion – cynhaliwyd cyfres o drafodaethau ag aelodau Llywodraeth Cymru. Rydym yn ddiolchgar i Brif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol ag aelodau eraill y Llywodraeth am eu hamser a'u hymatebion.

---

[4] *Ysgrifennodd y blaid fwyaf yn y Cynulliad at y Bwrdd yn nodi ei rhesymau dros beidio ag ymateb i'r arolwg.*

[5] ***Gwerthuso'r rhwystrau i ddod i'r Cynulliad: Beth sy'n ein rhwystro rhag sefyll i gael ein hethol?*** *Prifysgol Bangor, Gorffennaf 2014*

[6] *Roedd y gwaith hwn yn gofyn iddynt gymharu maint cymharol swyddi, ond ddim yn gofyn am argymhellion ar gyflogau.*

[7] ***Adroddiad ar werthuso rôl Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi – HayGroup, Awst 2014***

13. Yn ogystal â'r uchod, gwnaethom hefyd edrych ar amrywiaeth o ddata eraill. Mae'r prif rai, a geir yn y papur hwn, yn cynnwys y canlynol:

– Cymariaethau â gwleidyddion etholedig mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU;

– Cymariaethau â mesurau amrywiol o enillion canolrifol yng Nghymru dros gyfnod o amser;

– Cymariaethau â rolau eraill yn y sector cyhoeddus.

14. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r cynigion, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd gennym. Edrychwn ymlaen at gael rhagor o dystiolaeth a safbwyntiau yn ystod y broses ymgynghori, a gaiff eu gwerthuso yn y flwyddyn newydd.

# 03. Cyd-destun

## Rôl newidiol Aelod Cynulliad

15. Un o ddyletswyddau'r Bwrdd yw asesu *cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau a gyflawnir* gan yr Aelodau. Drwy wneud hynny, mae'n bwysig ystyried sut y mae'r rhain wedi newid dros amser. Ers ei sefydlu ym 1999 hyd nes ddiwedd yr Ail Gynulliad yn 2007, roedd y Cynulliad yn cael ei adnabod yn gynyddol fel sefydliad a oedd yn llunio polisïau ar faterion datganoledig ac, fel rhanddeiliad pwysig, yn sgil ei fandad democrataidd, ar faterion heb eu datganoli hefyd.

16. Creodd ail Ddeddf Llywodraeth Cymru, yn 2006, sefydliadau deddfwriaethol a gweithredol cwbl ar wahân yng Nghymru a roddodd bwerau i Gynulliad 2007-11 wneud deddfau sylfaenol drwy broses a oedd yn cynnwys llywodraeth a senedd y DU. Rhyddhaodd y bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm a gynhaliwyd yn 2011 y Cynulliad o'r broses honno, ac felly, ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad yn 2011, mae wedi bod yn rhydd i ddeddfu'n annibynnol ar unrhyw fater datganoledig.

17. Mae eglurder ynghylch cyrhaeddiad deddfwriaethol y Cynulliad yn datblygu o hyd. Yn ei ddyfarniad diweddaraf[8] ar y materion hyn, gwnaeth y Goruchaf Lys yn glir ei fod yn ystyried pwerau'r Cynulliad i ddeddfu mewn termau llawer ehangach na'r oedd llawer wedi'i feddwl o'r blaen.

18. Mae Bil Cymru, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd, yn gweithredu argymhellion Comisiwn Silk fel y bydd gan y Cynulliad a etholir yn 2016 gyfrifoldebau dros dreth a benthyca am y tro cyntaf. Mae'n debygol y bydd pwerau cyllidol eraill yn dilyn. Yn ei ddatganiad ym mis Gorffennaf ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn, dywedodd Prif Weinidog Cymru y bydd yn cyflwyno Bil Casglu a Rheoli Treth. Bydd hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer disodli Treth Dir y Dreth Stamp yn y DU a Threth Tirlenwi yn y DU gyda threthi datganoledig yng Nghymru o 2018 ymlaen.

19. Gwnaed argymhelliad gan Gomisiwn Silk hefyd y dylai cyfrifoldebau polisi datganoledig y Cynulliad gael eu hymestyn ymhellach gyda'r argymhellion allweddol a ganlyn ar gyfer maniffestos pleidiau yn etholiad cyffredinol nesaf y DU ym mis Mai 2015:

   – dylid defnyddio model 'pwerau a gedwir yn ôl' yn lle'r model presennol o 'bwerau a roddir';[9]

---

[8] *Cyfeiriad at y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) gan Dwrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr.*

[9] *Gyda model 'pwerau a gedwir yn ôl', gall senedd ddatganoledig ddeddfu ar unrhyw fater heblaw am y rheini sydd wedi'u cadw'n benodol ar gyfer San Steffan. Mae'r model presennol 'pwerau a roddir' yng Nghymru yn golygu mai dim ond yn y 20 maes polisi sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad y caiff ddeddfu arnynt.*

- trosglwyddo pwerau o Senedd y DU i'r Cynulliad ar gyfer trafnidiaeth, darlledu, cyflogau athrawon, carthffosiaeth, cydsyniadau ynni, cyfiawnder ieuenctid, plismona ac, yn yr hirdymor, pwerau cyfiawnder eraill; a
- chryfhau capasiti'r Cynulliad i graffu ar ddeddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif heb gynyddu cynrychiolaeth wleidyddol gyffredinol yng Nghymru.

20. Wrth inni ysgrifennu hwn, mae'r Bil yn cael ei ystyried gan Senedd y DU ac mae'n amlwg y bydd llawer o argymhellion Comisiwn Silk yn dod yn gyfraith maes o law. Mae cyfrifoldebau deddfwriaethol yr Aelodau yn sylweddol erbyn hyn, ac yn sicr nid ydynt yn debyg i'r rheini a oedd ar ysgwyddau eu rhagflaenwyr o dan fandadau blaenorol. Gan edrych ymlaen, bydd cyfrifoldebau'r rheini a etholir yn 2016 hyd yn oed yn fwy – yn fwyaf amlwg i gynnwys pwerau trethu a benthyca am y tro cyntaf, ynghyd â chynnydd arall tebygol yn ehangder y cymhwysedd deddfwriaethol. Mae newid cyfansoddiadol pellach hefyd yn rhagolwg realistig.

## Maint y Cynulliad

21. Mae newidiadau i gyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol yn golygu y gellir cymharu'r gwaith a wneir gan Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad yn fwy uniongyrchol â deddfwrfeydd eraill.

22. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflawni ei gyfrifoldebau gyda llai o Aelodau o lawer na seneddau eraill yn y DU a thramor, ac mae'n llai na llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol wrth ystyried taliadau gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad unigol allu cymathu llawer iawn o wybodaeth am amrywiaeth eang o bynciau, ac ysgwyddo cyfrifoldebau na cheir yn aml mewn mannau eraill.

23. Gyda dim ond 60 o Aelodau'r Cynulliad, mae angen i bob un ohonynt chwarae rôl weithredol yn swyddogaethau craidd y sefydliad. Bob wythnos, mae'n rhaid i bob Aelod gymryd rhan mewn dadleuon ac ateb cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ac wrth oruchwylio gwaith y pwyllgorau o ddatblygu deddfwriaeth a pholisi. Mewn seneddau mwy o faint, gall rhai Aelodau fynd am gyfnodau hir heb gyfle, sylw na phwysau o'r fath.

24. Nid oes unlle i guddio yn y Cynulliad Cenedlaethol: mae gan bob Aelod lefel uchel o awdurdod neu gyfrifoldeb gweithredol ar gyfer craffu ar waith y llywodraeth a'i oruchwylio. Yn ei dro, mae hyn yn golygu na all y sefydliad fforddio cael Aelodau nad oes ganddynt y cymwyseddau i fynd i’r afael â’r heriau hyn.

25. Mae'n rhaid i'n penderfyniadau ar daliadau a chymorth ariannol gael eu gwneud a'u hystyried gan gofio hyn.

## Sut y mae taliadau Aelodau'r Cynulliad wedi newid

26. Pan sefydlwyd y Cynulliad, roedd cyflog Aelod yn adlewyrchu argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Hanfod gwaith y Corff bryd hynny (ac mewn adolygiadau dilynol yn 2001 a 2004) oedd gwerthuso rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas ag Aelodau Seneddol San Steffan â chymharwyr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

27. Ym 1999, asesodd y Corff bod swydd Aelod gyfwerth â 74.3% o swydd Aelod Seneddol yn San Steffan, a phennwyd y cyflog yn unol â hynny. Mewn adolygiad dilynol yn 2004, cynyddodd y gyfran honno i 76.5%.

28. Pan ddaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros bennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau i Gomisiwn y Cynulliad. Yn ystod hydref 2007, sefydlodd Comisiwn y Cynulliad banel annibynnol i ystyried cyflogau a lwfansau'r Aelodau, yn enwedig yn sgil y newidiadau i gyfrifoldebau'r Aelodau oherwydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006[10].

29. Cyflwynodd y panel annibynnol ei adroddiad ym mis Mawrth 2008 ac argymhellwyd y dylai cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad gynyddu o 76.5% i 82% o gyflog Aelod Seneddol - wedi'i ôl-ddyddio i fis Mai 2007, dyddiad etholiad blaenorol y Cynulliad[11].

30. Dyma'r sefyllfa pan ddaeth y Bwrdd Taliadau i rym yn 2010 – cyfnod pan oedd caledi economaidd yn ffactor i bawb yng Nghymru. Yn ein hystyriaeth gychwynnol o gyflogau'r Aelodau, daethom i'r casgliad nad oedd rheswm dros feddwl y byddai'r lefel o £53,852 ym mis Mawrth 2011, yn rhwystr difrifol i sefyll mewn etholiad fel Aelod Cynulliad. Gyda chymorth gan arweinwyr y pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad, penderfynwyd y dylid pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau ar y lefel honno am bedair blynedd, o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad.

31. Roedd ymestyn tymor y Pedwerydd Cynulliad am flwyddyn yn golygu bod yn rhaid i'r Bwrdd bennu cyflog ar gyfer 2015-16. Penderfynwyd yn gynharach eleni y caiff y cyflog sylfaenol ar gyfer 2015-16, h.y. y flwyddyn sy'n rhagflaenu'r Pumed Cynulliad, ei godi 1%. Yn gyffredinol, mae hyn yn unol â chyflog gweithwyr y sector cyhoeddus, ond gwnaethpwyd yn glir mai trefniant dros dro oedd hwn ac y byddem yn gwneud astudiaeth fanylach ar gyfer y Pumed Cynulliad[12]. Felly, yn 2015-16, cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad fydd £54,390.

---

[10] *Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol Aelodau'r Cynulliad, 2008*
[11] *Ibid*
[12] ***Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau**, y Bwrdd Taliadau, Awst 2014*

# Aelodau etholedig mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU

32. Y rolau mwyaf amlwg i'w cymharu â rôl Aelod Cynulliad yw'r rheini a wneir gan wleidyddion etholedig mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU.

33. Yn ei adroddiad yn 2014, gwnaeth yr HayGroup yr union gymhariaeth honno. Noda fel a ganlyn:[13]

> "In 2001 when we carried out a similar exercise we placed the role in job weight terms one step below a Member of the Scottish Parliament. The primary reason at the time was the involvement of the Scottish role in primary legislation, whereas the role in Wales was confined to secondary legislation.
>
> "...we now believe that Assembly Members should be viewed as equivalent to MSPs."

34. Mae'r HayGroup bellach o'r farn bod pwysau'r swydd a wneir gan Aelodau'r Cynulliad yr un peth â'r swydd a wneir gan Aelodau Senedd yr Alban, ac un lefel yn is na swydd Aelodau Seneddol. Nodwyd hefyd fod y gwahaniaeth yn fach, hynny yw ni all gwerthuswr hyfforddedig ond braidd weld bod gwahaniaeth.

## *San Steffan*

35. Ym mis Rhagfyr 2013, lluniodd yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol ei adroddiad terfynol ar gyflogau a phensiynau'r Aelodau Seneddol. Yn dilyn gwerthusiad manwl ac ymgynghoriad trylwyr, penderfynwyd mai cyflog priodol a theg ar gyfer Aelodau Seneddol o 2015 ymlaen yw £74,000 y flwyddyn, a fydd, ar ôl hynny, yn gysylltiedig ag enillion cyfartalog. Dyma'r cyflog a delir i'r 40 o Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r etholaethau yng Nghymru.

36. Cafodd yr Awdurdod ei farnu'n hallt am ei benderfyniad - gan y cyhoedd a'r Aelodau Seneddol eu hunain. Mae wedi cyfiawnhau maint ac amseriad cynnydd o 9.3% fel a ganlyn:

> "... we recognise that we must answer the question: why do this now? Why do this at a time of austerity, when the British economy is struggling and when household budgets are under such pressure? Our answer is simple, but not glib: the lesson of the last 30 years is that there is never a good time to tackle this question. Wait for the moment when it is politically expedient to address it – when all the stars are aligned – and one would wait a long time, risking a repetition of the sad story of those last 30 years."

37. Ynghyd â'r cynnydd hwn mewn cyflog sylfaenol, mae cynllun pensiwn yr Aelodau Seneddol wedi'i wneud yn llai hael ac mae bellach yn gyffredinol ar yr un lefel â chynlluniau pensiwn eraill yn y sector cyhoeddus.

---

[13] ***Adroddiad ar werthuso rôl Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi – HayGroup, Awst 2014***

## Yr Alban

38. Ers 2002, mae cyflog Aelod o Senedd yr Alban wedi'i bennu ar 87.5% o gyflog Aelod Seneddol yn San Steffan. Ar ddiwedd 2013, gwnaeth Corff Corfforaethol Senedd yr Alban argymhelliad i Senedd y DU y dylid dileu'r cyswllt â chyflog Aelodau Seneddol ac, yn y dyfodol, y dylai cyflog Aelodau o Senedd yr Alban fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chodiadau cyflog gweithwyr yn y sector cyhoeddus yn yr Alban. Caiff cyflog sylfaenol a chyflogau deiliaid swyddi eu cynyddu fel hyn o 2015 ymlaen. Yn 2014-15, y cyflog sylfaenol yw £58,678.

39. Nid yw'r cynllun pensiwn ar gyfer Aelodau o Senedd yr Alban wedi'i adolygu yn yr un modd â chynlluniau San Steffan, Gogledd Iwerddon a Chymru. Felly, bydd y cynllun pensiwn ar gyfer Aelodau o Senedd yr Alban yn fwy hael na'r rheini mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU ar ôl yr etholiad nesaf.

## Gogledd Iwerddon

40. Mae cyflog Aelodau yng Ngogledd Iwerddon wedi'i bennu gan Banel Adolygu Ariannol Annibynnol, sy'n debyg i'r Bwrdd Taliadau. Yn ddiweddar, cynyddodd y Panel gyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol o £43,101 i £48,000 ac mae wedi'i bennu ar y lefel honno hyd nes diwedd y Cynulliad yn 2016. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar gynllun pensiwn yr Aelodau.

41. Mae'r Panel yn nodi yn ei adroddiad mai'r prif reswm pam fod gan Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol gyflog is nag aelodau etholedig eraill mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU yw gan fod cymaint ohonynt ar gyfer pob person yn y boblogaeth[14].

> "The major difference that the Panel identified between the roles of MLAs, MSPs and Aelodau'r Cynulliad is therefore one of size and volume. The nature and complexity of much of the work undertaken in these three legislatures is broadly comparable although there are differences in the extent of the powers devolved and these have changed over time in all three bodies. However in Northern Ireland there are so many members for the size of the electorate that the overall scope and depth of the individual responsibility of each MLA is less than in other legislatures."

[14] *Cyflogau, Lwfansau, Treuliau a Phensiynau Gogledd Iwerddon, Adroddiad y Panel Adolygu Ariannol Annibynnol, Mawrth 2012, paragraff 133*

# 04. Cyflog Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad

## Ein dull a'n rhesymeg

42. Yn y cyflwyniad i'r ddogfen ymgynghori hon, tynnwyd sylw at y ffaith ein bod yn gorff annibynnol ac nad oes gan Aelodau'r Cynulliad unrhyw rôl yn y penderfyniadau a wneir gennym, ar wahân i ymgynghori â hwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'n penderfyniad ar gyflog, yr ydym yn cydnabod mai dyma fydd yn cael y rhan fwyaf o'r sylw. Mae ein cynigion ar gyfer cyflog yn seiliedig ar ein hystyriaethau ein hunain, y dystiolaeth a gasglwyd gennym a'r casgliadau a wnaed gennym fel Bwrdd ac felly, ein cyfrifoldeb ni ydynt.

43. Er mwyn dod i benderfyniad ar gyflog sylfaenol Aelodau yn y Cynulliad nesaf, ystyriwyd y dasg o dri safbwynt a chyfunwyd y dystiolaeth o'r rheini. Y tair prif ystyriaeth oedd:

    – Sicrhau bod y cyflog yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ar ysgwyddau Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad yn briodol ac ansawdd yr unigolion sydd eu hangen i gyflawni rôl mor hanfodol;

    – Ystyried y pecyn cyfan o daliadau, gan gynnwys cyflog a phensiwn;

    – Cymharu data ar daliadau â rolau tebyg ac enillion yn yr economi ehangach, yn arbennig yng Nghymru.

44. Credwn fod y dull hwn wedi darparu pwyntiau cyfeirio defnyddiol i lywio ein ffordd o feddwl a bod y dull wedi'i gyfuno yn rhoi sicrwydd priodol, fel y gallwn fod yn hyderus bod ein casgliad yn gadarn ac yn rhesymol. Mae gweddill y bennod hon yn nodi ein canfyddiadau yn y tri maes hyn.

# Cyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad

45. Mae Aelodau'r Cynulliad wrth wraidd democratiaeth gynrychioladol yng Nghymru. Mae gwerth uchel ynghlwm wrth ddemocratiaeth a gwerth uchel hefyd i'n cynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd. Mae'r Cynulliad angen gwleidyddion o'r radd flaenaf, sydd â chefndiroedd a sgiliau amrywiol, a dealltwriaeth eang o waith y Cynulliad. Mae Aelodau'r Cynulliad yn atebol am ddatblygu deddfwriaeth a chraffu arni, craffu ar bolisïau Llywodraeth Cymru a sut y mae'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac am gynrychioli buddiannau degau o filoedd o etholwyr.

46. Daethom i'r casgliad yn gyflym y byddai'n anghywir cadw'r cyflog sylfaenol ar y lefel bresennol. Er y byddai lefel o'r fath yn golygu bod Aelodau'r Cynulliad ym 5% o enillion uchaf Cymru (yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[15]), credwn y byddai'n tanbrisio'n sylweddol y cyfrifoldebau a ysgwyddir gan Aelodau'r Cynulliad erbyn hyn a'r rheini a ysgwyddir ganddynt yn y Pumed Cynulliad. Mae'r pwysau sy'n gysylltiedig â swydd Aelod Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r cyflog gael ei adolygu ddiwethaf yn 2011. Bydd y pwysau'n cynyddu eto i lefel sydd fwy neu lai gyfwerth â deddfwrfeydd eraill yn y DU.

47. Er ein bod yn cydnabod y ffaith bod Aelodau yn sefyll mewn etholiad yn bennaf am eu bod yn awyddus i wasanaethu'r cyhoedd a'u gwlad, byddai'n groes i'r graen inni bennu eu cyflogau ar lefel sy'n tanbrisio eu rôl hollbwysig. Yn wir, credwn y byddai'n cyfleu neges negyddol ynghylch statws y Cynulliad a safon yr unigolion a ddylai sefyll i'w hethol yn y dyfodol.

---

[15] *Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2013*

# Pecyn llawn y taliadau

48. Rydym wedi dweud erioed na ddylid ystyried cyflog Aelodau'r Cynulliad ar ei ben ei hun, ond fel rhan o becyn o daliadau. Prif elfennau'r taliadau i'r Aelodau yw'r cyflog a gwerth effeithiol y cynllun pensiwn. Mae sefydlu gwerth presennol hawl i gael pensiwn yn y dyfodol yn gymhleth iawn, a byddai'n arwain at fod gwerthoedd gwahanol yn cael eu priodoli i bob Aelod unigol oherwydd gwahaniaethau mewn oedran, cyfnod o wasanaeth a nifer o ffactorau eraill. Am y rhesymau hyn, rydym wedi defnyddio gwerth y cyfraniadau a wnaed gan Gomisiwn y Cynulliad fel procsi ar gyfer gwerth y pensiwn er mwyn penderfynu "cyfanswm y taliadau".

49. Ar hyn o bryd, mae'r Aelodau fel arfer yn cyfrannu 10% o'u cyflog tuag at eu pensiwn ac mae'r trethdalwr (drwy gyfraniadau gan Gomisiwn y Cynulliad) yn cyfrannu 23.8% arall. Yn gynharach eleni, ymgynghorwyd ar newidiadau sylfaenol i ddyluniad a chost cynllun pensiwn yr Aelodau[16]. Bydd effaith gyfun y newidiadau hyn pan gânt eu rhoi ar waith yn 2016 ar ddechrau'r Pumed Cynulliad yn newid cydbwysedd y gost rhwng y buddiolwyr (Aelodau'r Cynulliad) a'r trethdalwr. Bydd natur y buddiannau pensiwn a ddarperir ar gyfer gwasanaeth o ddechrau'r Pumed Cynulliad yn llai hael (ar wahân i drefniadau trosiannol ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n agos at yr oedran ymddeol arferol) a bydd yr Aelodau yn talu rhywfaint yn fwy o'r gost eu hunain ( o 10% i 11%) a'r trethdalwr yn talu llai (o 23.8% i 16.6%) (gweler Tabl 2). Fodd bynnag, bydd y cynllun pensiwn yn parhau'n gynllun deniadol er gwaethaf y newidiadau hyn.

50. Mae'r costau angenrheidiol sydd ar yr Aelodau wrth gyflawni eu dyletswyddau yn cael eu had-dalu hyd at uchafsymiau sefydlog a nodir yn ein Penderfyniadau ar lwfansau. Nid yw'r symiau hyn yn rhan o'r pecyn taliadau i'r Aelodau gan nad ydynt yn cael unrhyw fudd personol ohonynt.

# Data i lywio ein penderfyniad

## *Cymariaethau â San Steffan*

51. Mae dadl y dylai Aelodau'r Cynulliad gael eu talu, neu gael yr un lefel o gyfanswm y taliadau, ag Aelodau Seneddol. Dim ond gwahaniaeth bach oedd ym mhwysau'r ddwy rôl yn ôl y gwaith ymchwil a gomisiynwyd gennym gan yr HayGroup, gyda phwysau swydd Aelodau'r Cynulliad ychydig yn is na phwysau swydd Aelodau Seneddol. Mae maint y gwahaniaeth mor fach fel y cred yr HayGroup mai dim ond gwerthuswr swyddi hyfforddedig allai ei weld ac un, mewn unrhyw achos, na ddylai, o reidrwydd, gael ei adlewyrchu mewn gwahaniaeth cyflog.

52. Yn ein barn ni, er bod gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, mae'r rolau a gyflawnir yn debyg mewn egwyddor. Mae'r ddau yn cynrychioli eu hetholwyr, gall y ddau gynnig, diwygio a chymeradwyo deddfwriaeth, gall y ddau awdurdodi symiau sylweddol o wariant cyhoeddus ac mae'r ddau yn

[16] ***Ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol - Gorffennaf 2014***. *Y Bwrdd Taliadau.*

goruchwylio gweithgareddau llywodraethau cenedlaethol. Yn wir, fel y nodwyd yn gynharach, er bod y portffolio o feysydd polisi sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad yn llai na phortffolio San Steffan, mae'r 60 o Aelodau'r Cynulliad yn ysgwyddo cyfrifoldeb mawr mewn perthynas ag ef.

53. Fodd bynnag, mae un gwahaniaeth y credwn fod angen ei ystyried wrth gymharu cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Mae'n ymwneud â'r egwyddor y dylid ystyried ein penderfyniadau yng nghyd-destun Cymru. Mae'r enillion yng Nghymru dros y bum mlynedd diwethaf wedi bod tua 10-15% yn is na'r DU ar y cyfan. Mae Aelodau'r Cynulliad wedi'u lleoli yng Nghymru ac maent yn cynrychioli pobl Cymru. Credwn y dylid adlewyrchu hyn yn y taliadau y maent yn eu cael.

54. Yn y gorffennol, roedd cyswllt uniongyrchol rhwng cyflogau Aelodau Seneddol a chyflogau Aelodau'r Cynulliad. Cafodd y cynnydd yng nghyfrifoldebau'r Aelodau ei adlewyrchu yn y newidiadau cyflog a gynyddodd y cyflog o 73% o gyflog sylfaenol Aelod Seneddol ym 1999 i 82% ar ôl cyflwyno gweithrediaeth a deddfwrfa ar wahân a phwerau deddfu sylfaenol yn 2007. Fodd bynnag, nodwn, pan gaiff codiad cyflog yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol ar gyfer Aelodau Seneddol ei gyflwyno y flwyddyn nesaf, y bydd y gymhareb yn ôl i'r un lefel â phan sefydlwyd y Cynulliad, er na all unrhyw un ddadlau fod lefel y cyfrifoldeb a oedd gan Aelod Cynulliad ym 1999 yr un peth â'r lefel heddiw.

**Tabl 1: Cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad o'i gymharu â chyflog sylfaenol Aelod Seneddol: 1999-2015**

| Ebrill/Mai | Aelod Cynulliad | Aelod Seneddol | Aelod Cynulliad fel % o Aelod Seneddol |
|---|---|---|---|
| 1999 (Cynulliad Cyntaf) | £34,438 | £47,008 | 73% |
| 2003 (Ail Gynulliad) | £42,434 | £56,358 | 75% |
| 2007 (Trydydd Cynulliad) | £50,169 | £61,181 | 82% |
| 2010 | £53,852 | £65,738 | 82% |
| 2011 (Pedwerydd Cynulliad) | £53,852 | £65,738 | 82% |
| 2012 | £53,852 | £65,738 | 82% |
| 2013 | £53,852 | £66,396 | 81% |
| 2014 | £53,852 | £67,060 | 80% |
| 2015 | £54,390 | £74,000 | 74% |

55. Pe byddai Aelod Cynulliad yn 2015 yn cynrychioli lefel 2007 o 82% o gyflog Aelod Seneddol, byddai'n cael ei bennu ar tua £60,700. O ystyried y bydd cyfrifoldebau'r Cynulliad ar ôl Comisiwn Silk yn fwy sylweddol na'r rhagflaenydd cyn y refferendwm yn 2007, nid oes amheuaeth y dylai'r gymhareb fod hyd yn oed yn uwch. Pe byddai'n

cyrraedd yr 87.5% hirsefydlog yn yr Alban, er enghraifft, byddai'r ffigur yn nes at £65,000.

## *Cymharu â deddfwrfeydd eraill yn y DU*

56. Yn sgil y gwaith ymchwil a wnaed gan yr HayGroup gwelwyd bod pwysau swydd Aelodau'r Cynulliad gyfwerth â phwysau swydd Aelodau Senedd yr Alban, ac ychydig yn is na phwysau swydd Aelod Seneddol. Mae cyflog Aelod o Senedd yr Alban yn £58,678 ar hyn o bryd a bydd yn newid dros y ddwy flynedd nesaf yn unol â chyflog cyflogeion y sector cyhoeddus yn yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyflog Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol wedi'i bennu ar £48,000[17] tan ddiwedd y Cynulliad presennol.

57. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi cyflogau presennol 2014 a gwerth effeithiol buddiannau pensiwn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Senedd y DU. Mae hefyd yn nodi'r ffigurau cyfwerth ar gyfer blynyddoedd dilynol, os ydynt yn hysbys.

**Tabl 2: Cymharu cyfanswm y taliadau[18] yn 2014, 2015 a'r cynigion ar gyfer 2016**

| | Blwyddyn | Cynllun pensiwn | Cyflog | Cyfradd cyfraniad pensiwn y cyflogwr | Amcangyfrif o gyfraniad y cyflogwr (wedi'i dalgrynnu) | Cyfanswm y tâl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelod Seneddol | 2014-15 | Presennol | 67,060 | 20.4% | 13,700 | 80,760 |
| | 2015-16 (a) | Dyfodol | 74,000 | 12.4% | 9,200 | 83,200 |
| | | | | | | |
| Aelod Cynulliad | 2014-15 | Presennol | 53,852 | 23.8% | 12,800 | 66,652 |
| | 2015-16 | Presennol | 54,390 | 23.8% | 12,900 | 67,290 |
| | 2016-17 (b) | Dyfodol | 64,000 | 16.6% | 10,600 | 74,600 |
| | | | | | | |
| Aelod o Senedd yr Alban | 2014-15 (c) | Presennol | 58,678 | 20.2% | 11,900 | 70,578 |

(a) Mae cyfradd y cyfraniadau'n tybio cymhareb o 54:46 trethdalwr:Aelod Seneddol, o ystyried bod adroddiad terfynol yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol ar gyflogau a phensiynau ac asesiad Adran Actiwari'r Llywodraeth yn nodi cost y cynllun yn 22.9% o'r gyflogres yn 2013.
(b) Cyfradd y cyfraniadau pe byddai cynigion ymgynghoriad y Bwrdd ar gyflogau a phensiynau yn cael eu rhoi ar waith.
(c) Nid yw cyflogau Aelodau o Senedd yr Alban wedi'u pennu eto y tu hwnt i 2014-15.

[17] *Gweler yr eglurhad ym mharagraffau 41-2.*
[18] *Yn yr adroddiad hwn mae Cyfanswm y Taliadau yn golygu cyfanswm y cyflog a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gaiff yr Aelod. Gweler paragraffau 49-51.*

58. Ystyriwyd hefyd y lefelau a'r newidiadau yn yr enillion yn economi Cymru. Mae'r tabl a ganlyn yn cymharu cyflog sylfaenol yr Aelodau â mesurau amrywiol o enillion canolrifol yng Nghymru.

**Tabl 3: Enillion canolrifol (£) yng Nghymru: 1999-2013**

| | Cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad | Canolrif yr holl enillwyr | $90^{fed}$ canradd o'r holl enillwyr | Canolrif Rheolwyr ac Uwch-swyddogion | $80^{fed}$ canradd o Reolwyr ac Uwch-swyddogion | | Cymhareb cyflog yr Aelod Cynulliad i gyflog canolrifol | Cymhareb cyflog yr Aelod Cynulliad i gymedr y cyflog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1999 | 34,438 | 16,457 | 29,159 | 22,900 | 34,483 | | 2.1 | 1.9 |
| 2007 | 50.169 | 21,105 | 39,051 | 28,288 | 41,263 | | 2.4 | 1.9 |
| 2008 | 51.899 | 21,830 | 41,320 | 29,874 | 43,321 | | 2.4 | 2.0 |
| 2009 | 53,108 | 22,800 | 42,368 | 31,061 | 43,384 | | 2.3 | 2.0 |
| 2010 | 53,852 | 23,178 | 41,889 | 31,119 | 43,795 | | 2.3 | 2.0 |
| 2011 | 53,852 | 23,397 | 42,583 | 30,046 | 46,782 | | 2.3 | 2.0 |
| 2012 | 53,852 | 23,617 | 42,956 | 29,974 | 47,220 | | 2.3 | 2.0 |
| 2013 | 53,852 | 24,182 | 43,240 | 30,593 | 49,119 | | 2.2 | 2.0 |
| | | | | | | | | |
| Cynnydd ers 1999 | 56.4% | 46.9% | 48.3% | 33.6% | 42.4% | | | |
| Cynnydd ers 2007 | 7.3% | 14.6% | 10.7% | 8.1% | 19.0% | | | |

**Ffynhonnell:** **Annual Survey of Hours and Earnings, y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

59. Ers 1999, mae'r Aelodau wedi gweld mwy o gynnydd yn eu cyflog sylfaenol na'r canolrif ar gyfer yr holl enillwyr yng Nghymru, $90^{fed}$ canradd yr holl enillwyr, yr is-grŵp o Reolwyr ac Uwch-swyddogion a'r $80^{fed}$canradd o'r grŵp hwnnw.

60. Fodd bynnag, mae'r gwaharddiad ar godi cyflogau ers 2010 yn golygu bod darlun gwahanol yn dod i'r amlwg os caiff cymhariaeth ei wneud â 2007, y flwyddyn gyntaf pan oedd gan y Cynulliad bwerau deddfu sylfaenol. Ar y mesur hwn, cododd cyflogau'r Aelodau tua 7% rhwng 2007 a 2013, hanner y twf a gafwyd mewn enillion canolrifol yn economi Cymru. Mae hefyd yn werth nodi y cynyddodd enillion $80^{fed}$ canradd y rheolwyr a'r uwch-swyddogion yng Nghymru 19% dros y cyfnod hwnnw.

61. Yn 2009, amcangyfrifwyd fod cyflog Aelodau'r Cynulliad yn 2% uchaf yr holl enillwyr, a 5% uchaf y rheolwyr a'r uwch-swyddogion yng Nghymru. Yn 2013, roedd cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad yn golygu eu bod yn 5% uchaf yr holl enillwyr yng Nghymru ac yn y 15-20% uchaf o reolwyr ac uwch-swyddogion[19]. Pe byddai cyflog yr

[19] *Ar gyfer yr holl enillwyr – $95^{fed}$ canradd £52,800, $96^{fed}$ canradd £56,100, $97^{fed}$ canradd £60,200. Mae rhifau'r sampl yn rhy fach i fod yn fanwl gywir ar gyfer rheolwyr ac uwch-swyddogion, er yr amcangyfrifir bod £53,852 rhwng yr $80^{fed}$ a'r $85^{fed}$ canradd - data ASHE heb ei gyhoeddi ar gyfer 2013 a ddarparwyd gan Wasanaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru.*

Aelodau wedi aros yr un fath yn nosbarthiad enillion Cymru, byddai erbyn hyn yn bell y tu hwnt i £60,000[20].

62. At hynny, pe byddai cyflog wedi nodi newidiadau ym mhrisiau, enillion canolrifol neu enillion yr 80fed canradd o reolwyr ac uwch-swyddogion yng Nghymru ers 2007, byddai wedi cyrraedd rhwng £65,000 a £70,000 erbyn 2015. Pe byddai wedi'u nodi ers 2010, lle cafodd cyflogau eu hatal rhag codi, byddai wedi cyrraedd rhwng £59,000 a £66,000 erbyn 2015.

## *Cymharwyr eraill yn y sector cyhoeddus*

63. Yn ogystal â chyflog mewn seneddau eraill, ystyriwyd hefyd lefelau o daliadau ar gyfer rolau uwch mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn benodol, defnyddiwyd y nifer fawr o ddata sylweddol a gafwyd o'r ymchwiliad diweddar i gyflogau uwch-reolwyr a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad.

64. Roedd y data a gyflwynwyd i'r ymchwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio cyflog Prif Weithredwyr ac uwch aelodau o staff mewn llywodraeth leol yng Nghymru, y gwasanaeth iechyd, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

*[20] Roedd 97fed canradd yr enillion ar gyfer yr holl enillwyr yn 2013 yn £60,200.*

**Tabl 4: Cyflogau staff uwch yn y sector cyhoeddus yng Nghymru: 2012-13**

| | Prif Weithredwyr | | | Cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr: lleiafswm ac uchafswm pwyntiau ar fandiau cyflog (£000oedd) | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Isafswm** | **Uchafswm** | | **Isafswm** | **Uchafswm** |
| Awdurdodau lleol | 106,000 | 195,000 | | 60 | 149 |
| Cyrff y GIG | 120,000 | 200,000 | | 50 | 224 |
| Parciau Cenedlaethol | 74,000 | 76,000 | | 60 | 74 |
| Awdurdodau Tân | 116,000 | 131,000 | | 60 | 124 |
| Prif Gwnstabliaid | 133,000 | 154,000 | | 75 | 179 |
| Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | 65,000 | 85,000 | | .. | .. |
| Dirprwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | 41,000 | 66,000 | | .. | .. |
| | | | | | |
| Ymddiriedolaeth Prawf Cymru | | 100,000 | | 55 | 85 |
| Llywodraeth Cymru | | 160,000 | | 100 | 224 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | | 150,000 | | 100 | 124 |
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | | 140,000 | | 50 | 124 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 135,000 | | 75 | 99 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | 90,000 | | 50 | 74 |
| Cyngor Gofal Cymru | | 95,000 | | 50 | 74 |
| Comisiynydd Plant Cymru | | 90,000 | | 50 | 74 |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | | 95,000 | | 50 | 99 |
| Estyn (arolygiaeth ysgolion) | | 105,000 | | 50 | 74 |
| Comisiwn Coedwigaeth Cymru | | 70,000 | | 50 | 74 |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | | 85,000 | | 50 | 74 |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | | 105,000 | | 75 | 99 |
| Comisiwn Ffiniau i Gymru | | 75,000 | | .. | .. |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | 75,000 | | 50 | 74 |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | | 100,000 | | 50 | 99 |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | | 90,000 | | 50 | 99 |
| Chwaraeon Cymru | | 75,000 | | 50 | 74 |
| Comisiynydd y Gymraeg | | 95,000 | | 50 | 74 |
| | | | | | |
| Penaethiaid ysgolion | | .. | | 60 | 149 |

Ffynonellau: Memorandwm Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Tâl uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gwefannau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

65. Nid yw'n syndod bod cyflogau prif weithredwyr yn y sector cyhoeddus yn sylweddol uwch na chyflogau Aelodau'r Cynulliad. Ond mae nifer fawr o uwch aelodau o staff eraill hefyd yn ennill llawer mwy na'r lefel honno, yn arbennig yn y cyrff mwy. I ddangos hyn, drwy edrych ar y datganiadau ariannol unigol sy'n ofynnol gan bob

awdurdod lleol, roeddent yn dangos eu bod yn cyflogi dros 1,100 o unigolion yng Nghymru yn 2012-13 gyda thaliadau o dros £60,000 y flwyddyn. Mae'r wybodaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dangos bod dros 300 aelod o staff ym mhrifysgolion Cymru yn 2012-13 gyda thaliadau o £100,000 neu fwy a thros 120 yn yr wyth coleg addysg bellach yng Nghymru gyda thaliadau o dros £60,000. Mae adroddiad cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 yn dangos ei bod yn cyflogi tua 800 o staff gyda chyflogau o £50,000 neu fwy.

66. Ar gyfer swydd gyda chyfrifoldebau ar yr un lefel ym Marchnad Gyffredinol y DU, nododd yr HayGroup y disgwylir cael cyflog canolrifol o £82,500, a gallai hefyd gynnwys elfen o gyflog ar sail perfformiad. Byddai ffigur tebyg ar gyfer swydd ar yr un lefel yn y sector cyhoeddus neu'r sector dielw yn £69,300.

67. Gallem fod wedi parhau i gasglu data o'r fath, fel uwcharolygwyr yr heddlu, meddygon teulu a swyddogion y fyddin. Yn wir, ystyriwyd rhagor o alwedigaethau i'w cymharu, fel arweinwyr awdurdodau lleol, staff y GIG, cyfrifwyr a gweithwyr ariannol proffesiynol eraill, cyfreithwyr a'r farnwriaeth, fel rhan o'n gwaith ymchwil. Daeth yn amlwg yn fuan bod y neges yn un gyson a chlir: er nad oedd y data yn gwrth-ddweud nac yn tanseilio'r casgliad bod Aelodau'r Cynulliad ymhlith yr enillwyr uchaf yng Nghymru, cadarnhawyd y byddai cyflog rhwng £60,000 a £70,000 yn gyson â'r rheini sy'n cael eu talu mewn rolau uwch eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dyma'r math o ystod o gyflogau sydd gan amryw uwch-reolwyr a chyfarwyddwyr yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.[21]

## Cyflog Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad - ein casgliad

68. **Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, rydym yn cynnig pennu cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad ar ddechrau'r Cynulliad nesaf ar £64,000.**

69. Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu lefel y cyfrifoldeb a ysgwyddir yn y rôl, y mae'n briodol o'i gymharu â rolau tebyg ac mae'n ystyried y newidiadau ehangach mewn enillion yng Nghymru.

70. Mae'r cyflog sylfaenol 17.7% yn uwch na'r hyn a oedd yn daladwy yn 2015-16 – blwyddyn olaf y Cynulliad hwn. O ystyried y newidiadau a gaiff eu gwneud i gynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad, mae'n gynnydd o 10.8% yng nghyfanswm y taliadau.

71. Rydym yn sylweddoli bod y cyflog uwch hwn yn annhebygol o gael cefnogaeth pawb. Byddai'n gynnydd sylweddol ar unrhyw adeg, heb sôn am adeg pan fo cyllid y sector cyhoeddus yn cael ei wasgu a phan fo llawer o bobl yng Nghymru yn dioddef yn economaidd. Fodd bynnag, ein rôl yw gwneud penderfyniadau sy'n iawn ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ac, o hynny, ar gyfer y wlad yn ei chyfanrwydd. Byddai bod yn

*[21] Gweler Atodiad A i weld amrywiaeth o fandiau cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.*

llai beiddgar, pennu cyflog nad yw'n adlewyrchu pwysau'r cyfrifoldeb nac ansawdd yr unigolyn sydd ei angen, yn golygu gwneud anghymwynas â'r sefydliad a'r wlad yn yr hirdymor.

72. Fel dewis arall heblaw gosod y cyflog ar £64,000 yn 2016, trafododd y Bwrdd a fyddai'n briodol cyflwyno'r newid mewn cyflog yn raddol yn ystod y Cynulliad nesaf. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu y byddai cyfanswm y taliad ar lefel sy'n is na'n hasesiad ni o'r hyn sy'n gywir ar gyfer pedair blynedd. Felly, ar y cyfan, nid ydym yn cynnig dull gweithredu graddol o'r fath.

73. Mae ar Gymru angen llywodraethu da a llywodraeth dda. Mae hyn yn gofyn am Gynulliad Cenedlaethol cryf ac effeithiol. Er mwyn iddo fod felly, mae'n rhaid i Aelodau unigol y Cynulliad fod yn eithriadol yn eu cymhelliant a'u gallu ac mae'n rhaid iddynt gael eu talu'n briodol.

74. Mae ein cynnig, felly, wedi'i fwriadu i anfon neges ynghylch statws y Cynulliad Cenedlaethol, safon yr unigolyn y dylai etholwyr Cymru ddisgwyl eu cynrychioli, a lefel y perfformiad y dylent fynnu oddi wrthynt. Rydym yn gobeithio hefyd y bydd yn hwb i'r pleidiau gwleidyddol i'w helpu i arallgyfeirio a chryfhau'r ymgeiswyr y maent yn eu cynnig.

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'n barn y dylai Aelodau'r Cynulliad gael cyflog sylfaenol o £64,000 yn 2016-17, sef blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad? Eglurwch eich barn os gwelwch yn dda.**

# Mynegeio

75. O ran cyflogau'r Aelodau, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud un penderfyniad yn unig ar gyfer pob Cynulliad oni bai '*ei fod o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn briodol ac yn rhesymol*' gwneud mwy nag un penderfyniad.

76. Felly, rydym yn cynnig pennu lefel gywir o gyflog ar gyfer blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad, ac yna'i addasu bob blwyddyn i adlewyrchu'r newidiadau yn yr enillion canolrifol yng Nghymru.

77. Ystyriwyd a ddylid ei gysylltu â chyflog yn y sector cyhoeddus. Rydym wedi penderfynu yn erbyn hyn. Mae'r Aelodau'n cynrychioli holl ddinasyddion Cymru, ac felly credwn yn gryf y dylai eu cyflog fod yn gysylltiedig â dangosydd sy'n adlewyrchu pob sector o'r economi.

78. Mae gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddau fesur y gallem eu defnyddio at y diben hwn:

   – Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yn darparu data ar gyflog gros blynyddol ar gyfer gweithwyr llawn amser. Fel arfer, caiff ei gyhoeddi ym mis Tachwedd a chaif ei ddiweddaru ym mis Mawrth; neu

   – caiff cyfartaledd tri mis treigl o enillion cyfartalog gros wythnosol (AWE) gweithwyr llawn amser ei gyhoeddi bob chwarter.

79. Mae'r gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r data'n cael eu casglu yn golygu eu bod yn amrywio o ran eu cyfnewidioldeb o gyfnod i gyfnod. Wrth gymharu ffigurau Cymru ar gyfer y ddau ddangosydd, gan wneud cymariaethau dros y saith mlynedd diwethaf, mae'r ffigurau ASHE wedi gweld amrywiadau llai dramatig na'r ffigurau AWE.

80. Rydym yn cynnig y dylai'r taliadau i Aelodau'r Cynulliad gael eu mynegeio bob blwyddyn yn unol â newidiadau i enillion canolrifol yng Nghymru, fel y'u mesurir gan fersiwn ddiweddaraf ASHE ym mis Mawrth.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno ei bod yn briodol mynegeio cyflog Aelodau'r Cynulliad dros bum mlynedd y Pumed Cynulliad?**

**Cwestiwn 2A: Os felly, a ydych yn cytuno mai ffigur ASHE ar gyfer enillion wythnosol gros canolrifol gweithwyr llawn amser yng Nghymru yw'r mynegai priodol?**

# 05. Cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi

81. Mae ein cylch gwaith yn ei gwneud yn ofynnol inni hefyd bennu cyflogau ar gyfer y Prif Weinidog ac aelodau o'r Llywodraeth ac ar gyfer unrhyw ddeiliaid swyddi eraill o fewn y Cynulliad a gaiff dâl. Ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu pa swyddi a ddylai gael tâl ychwanegol ac, os felly, ar ba lefel.

82. O'r 60 o Aelodau'r Cynulliad, mae 34 ar hyn o bryd (ynghyd â'r Cwnsler Cyffredinol) yn cael cyflog ychwanegol mewn cysylltiad â chyfrifoldebau'r swyddi sydd ganddynt, fel y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, arweinwyr pleidiau, cadeiryddion pwyllgorau, rheolwyr busnes y pleidiau, y Prif Weinidog, ac aelodau eraill o Lywodraeth Cymru. Er bod y gyfran hon yn uchel, mae'n angenrheidiol oherwydd maint bach y Cynulliad Cenedlaethol. Fel unrhyw ddeddfwrfa, mae'n dibynnu ar y deiliaid swyddi allweddol penodol i gyflawni ei waith os yw am fod yn effeithiol. Mae’r swyddi hynny yn gyffredin i unrhyw senedd a gweithrediaeth, waeth beth fo'u maint, ac maent yn debygol o gynrychioli cyfran uwch o gyfanswm yr aelodaeth mewn sefydliadau llai. Rydym yn credu bod deiliaid y swyddi hynny yn cario cyfrifoldebau sylweddol, ar ben y rhai sydd gan Aelod Cynulliad cyffredin, a bod hyn yn haeddu cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol.

83. Pan fo Aelod Cynulliad yn dal mwy nag un swydd â thâl, dim ond y cyflog ychwanegol uwch y mae'n gymwys i'w gael.

## Rolau sy'n derbyn tâl

84. Cynigiwn y dylid talu cyflogau ychwanegol i ddeiliaid y swyddi canlynol o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- – Y Llywydd
- – Y Dirprwy Lywydd
- – Arweinwyr Grwpiau'r Wrthblaid
- – Cadeiryddion Pwyllgorau
- – Comisiynwyr y Cynulliad
- – Aelodau'r Pwyllgor Busnes

85. Cynigiwn y dylid talu cyflogau ychwanegol i ddeiliaid y swyddi canlynol yn Llywodraeth Cymru:

- – Prif Weinidog Cymru
- – Gweinidog
- – Y Cwnsler Cyffredinol

– Dirprwy Weinidog

86. Mae manylion yr holl newidiadau a'r cymariaethau â 2015-16 wedi'u cynnwys yn Nhabl 13 yn Atodiad A.

87. Cafodd ein dull o bennu lefel y cyflog ychwanegol ar gyfer pob un o'r rolau hynny ei lywio gan waith ymchwil yr HayGroup ar bwysoli swyddi ac roedd yn adeiladu ar ein penderfyniad ynglŷn â chyflog sylfaenol Aelod Cynulliad.

88. Mae llawer o rolau Aelodau'r Cynulliad, a ddisgrifiwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn, sy'n ymwneud â goruchwylio a herio'r weithrediaeth, yn rhai nad ydynt, drwy ddiffiniad, yn cael eu gwneud gan aelodau o Lywodraeth Cymru. Am y rheswm hwn, rhannwyd ein trafodaeth yn ddau floc, sef y rhai sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r weithrediaeth yn gweithredu: y Prif Weinidog, Gweinidogion, Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol; a'r rhai sy'n ymwneud â gweithrediad y Cynulliad fel deddfwrfa a sefydliad.

## Rolau Llywodraeth Cymru

89. Yn y cynigion sy'n dilyn, rydym wedi dangos yr elfen cyflog ar gyfer y rheini mewn rolau gweithredol fel cyfanswm cyflog. Rydym yn teimlo mai dyma'r ffordd symlaf o gyflwyno'r cynnig a'i fod yn adlewyrchu'r ffaith mai'r prif sbardun ar gyfer tâl i aelod o'r Llywodraeth fydd ei gyfrifoldebau gweithredol yn hytrach na dyletswyddau craidd Aelodau eraill y Cynulliad (sef dwyn y Llywodraeth i gyfrif, craffu ar ddeddfwriaeth, cymryd rhan mewn gwaith pwyllgor ac ati). Yn ymarferol, bydd cyfanswm y cyflog hwn yn cynnwys y cyflog sylfaenol a gaiff yr holl aelodau a chyflog ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd benodol a ddelir.

90. Y man cychwyn ar gyfer ein cynigion ar gyflogau ychwanegol i aelodau o'r Llywodraeth yw'r swm a gaiff ei dalu i'r Prif Weinidog. Ynghyd â'r cyflog sylfaenol ar gyfer pob Aelod Cynulliad, mae hyn yn rhoi ffrâm inni ar gyfer yr holl benderfyniadau eraill a wneir ynghylch cyflogau deiliaid swyddi.

### *Prif Weinidog Cymru*

91. Swydd y Prif Weinidog yw'r swydd wleidyddol bwysicaf yng Nghymru. Mae'r cyfrifoldeb, y llwyth gwaith a'r gwaith craffu cyhoeddus yn enfawr. Nid oes unrhyw amheuaeth y dylid rhoi tâl uchel iawn i ddeiliad y swydd hon. Eto, rydym hefyd yn ymwybodol bod y rhai sy'n ymgymryd â rolau o'r fath yn gwneud hynny oherwydd eu bod am wasanaethu eu gwlad, nid oherwydd y cyflog a gynigir. Yn wir, pe bai Prif Weinidog y DU, neu Brif Weinidogion unrhyw un o'r gwledydd datganoledig, yn cael eu talu ar gyfradd sy'n wirioneddol adlewyrchu pwysau'r swydd, byddent bron yn sicr yn cael llawer mwy na'r symiau cyfredol.

92. Roedd y gwaith ymchwil a gawsom gan yr HayGroup yn asesu bod pwysau rôl y Prif Weinidog yn is o lawer na rôl Prif Weinidog y DU, ychydig bach yn is nag un Prif Weinidog yr Alban, ac yn yr un ystod cyflog â Gweinidog Cabinet y DU.

93. Rydym yn sylweddoli bod cyflog y Prif Weinidog wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gyfres o benderfyniadau gwleidyddol. Er nad yw, felly, yn darparu meincnod ystyrlon iawn ar gyfer barnu tâl y Prif Weinidog, nid ydym yn credu y byddai'n cyfiawnhau rhagori arno.

94. Cynigiwn felly pennu cyfanswm cyflog y Prif Weinidog ar £140,000.

**Tabl 5: Cyflogau'r Prif Weinidogion yn y DU[22].**

| | Y DU (2014) | Yr Alban (2014) | Gogledd Iwerddon (2014) | Cymru (2014) | Cymru (cynigion ar gyfer 2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tâl Sylfaenol yr Aelodau | £67,060 | £58,678 | £48,000 | £53,852 | **£64,000** |
| Prif Weinidog | £142,500 | £143,680 | £120,000 | £134,722 | **£140,000** |

## *Gweinidogion*

95. Mae gan Weinidogion Llywodraeth Cymru lefel uchel o gyfrifoldeb gweithredol. Fel y dywed adroddiad yr HayGroup, "These are significant political and managerial roles with a major impact on life in Wales."

96. Mae rhai portffolios Gweinidogol yn fwy nag eraill ac mae achos dros eu talu'n wahanol. Rydym wedi gwrthod y syniad hwn ac yn cynnig un lefel o gyflog ar gyfer yr holl Weinidogion. Maent i gyd yn aelodau o'r Cabinet, yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros benderfyniadau sylfaenol llywodraeth, a mater i'r Prif Weinidog yw'r cylch gwaith a roddir i bob un.

97. Mae'n amlwg fod pwysau'r rôl yn llai nag un y Prif Weinidog. Serch hynny, mae ychwanegu pwerau cyllidol i arfau Llywodraeth Cymru yn golygu y bydd rhagor o gyfrifoldebau ar y rolau hyn yn y Pumed Cynulliad. Ar y llaw arall, nid yw'r cyfrifoldebau ychwanegol o graffu a goruchwylio, sy'n sail i'n cynnig ar gyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad, yn rhan o ddyletswyddau aelodau o'r Llywodraeth.

98. Aseswyd pwysau'r rôl gan yr HayGroup, fel un sy'n cyfateb i Weinidog Gwladol yn Llywodraeth y DU. Cyflog Gweinidog Gwladol yn Llywodraeth y DU yn 2014 yw £98,740. Roedd hefyd yn awgrymu y byddai rôl wedi'i phwysoli yn yr un modd mewn mannau eraill ym marchnad y DU yn denu cyflog o tua £278,000.

[22] *Job Evaluation and Remuneration Benchmarking for Assembly Members, HayGroup, Awst 2014, t.18*

99. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn rydym yn cynnig pennu cyfanswm cyflog Gweinidog yn Llywodraeth Cymru ar £100,000.

**Tabl 6: Cyflogau Gweinidogion yn y DU** [23]

| | Y DU (2014) | Yr Alban (2014) | Gogledd Iwerddon (2014) | Cymru (2014) | Cymru (cynigion ar gyfer 2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tâl Sylfaenol yr Aelodau | £67,060 | £58,678 | £48,000 | £53,852 | **£64,000** |
| Gweinidog Cabinet | £134,565 | £102,775 | £86,000 | £95,801 | **£100,000** |
| Gweinidog Gwladol (y DU yn unig) | £98,740 | Amh. | | | |

## *Dirprwy Weinidogion*

100. Fel gyda Gweinidogion, mae pwysau'r cyfrifoldebau sydd ar Ddirprwy Weinidogion yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai wedi bod yn gyfrifol am gyflwyno deddfwriaeth drwy'r Cynulliad ac eraill wedi bod â phortffolios a fyddai, efallai, yn Llywodraeth y DU, yn cael eu rhannu ar draws nifer o weinyddiaethau.

101. Nid yw Dirprwy Weinidogion yn aelodau o'r Cabinet. Mae pob un yn atebol i un neu ragor o Weinidogion. Felly, ceir gwahaniaethau sylfaenol o ran pwysau eu cyfrifoldebau ac atebolrwydd o'i gymharu â Gweinidogion.

102. Aseswyd pwysau'r rôl gan yr HayGroup, fel un sy'n cyfateb i Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn llywodraeth y DU. Cyflog Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn llywodraeth y DU yn 2014 yw £89,435. Awgrymodd yr HayGroup hefyd y byddai rôl wedi'i phwysoli yn yr un modd mewn mannau eraill ym marchnad y DU yn gallu denu cyflog o tua £145,000, ac y byddai cyflog rhywle arall yn y sector cyhoeddus / cwmni dielw oddeutu £123,000.

103. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, rydym yn bwriadu pennu cyfanswm cyflog Dirprwy Weinidog ar £85,000.

[23] *Job Evaluation and Remuneration Benchmarking for Assembly Members, HayGroup, Awst 2014, t.18*

**Tabl 7: Cyflogau Gweinidogion yn y DU**

| | Y DU (2014) | Yr Alban (2014) | Gogledd Iwerddon (2014) | Cymru (2014) | Cymru (cynigion ar gyfer 2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tâl Sylfaenol yr Aelodau | £67,060 | £58,678 | £48,000 | £53,852 | **£64,000** |
| Dirprwy Weinidog | £100,620[24] | £86,300 | £60,000 | £80,237 | **£85,000** |
| Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (y DU yn unig) | £89,435 | Amh. | | | |

## Y Cwnsler Cyffredinol

104. Mae rôl y Cwnsler Cyffredinol yn unigryw. Fel Swyddog y Gyfraith Llywodraeth Cymru, y Cwnsler Cyffredinol yw prif gynghorwr cyfreithiol y Llywodraeth ac mae'n cynrychioli'r Llywodraeth yn y llysoedd. Caiff hefyd gyfeirio materion i'r Goruchaf Lys i gael dyfarniad arnynt. Mae rôl y Cwnsler Cyffredinol o ran y tri Bil Cynulliad a ystyriwyd gan y Goruchaf Lys yn dangos arwyddocâd y rôl wrth lunio pwerau deddfwriaethol y Cynulliad a sefyllfa gyfansoddiadol Cymru.

105. Er nad yw deiliad presennol y swydd yn Aelod Cynulliad, mae'n atebol i'r Cynulliad o ran arfer ei swyddogaethau statudol, mae'n ateb cwestiynau yn y Cynulliad bob pedair wythnos ac yn mynd i gyfarfodydd y Cabinet. Mewn egwyddor, gallai'r swydd gael ei dal gan Aelod Cynulliad, ond rydym yn cytuno â barn y Cwnsler Cyffredinol ac aelodau o'r Llywodraeth, fod natur y rôl y dyddiau hyn yn debygol o fod yn galw am sgiliau uwch gyfreithiwr. Er y disgrifiwyd y rôl i ni fel un amser llawn, mae'r deiliad presennol hefyd yn ymgymryd â rhywfaint o waith preifat.

106. Mae rolau Swyddog y Gyfraith yn bodoli ar lefel y DU ac yn y gwledydd datganoledig eraill. Mae anghymesuredd y swyddi, fodd bynnag – er enghraifft diffyg awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru – yn golygu ein bod yn ei chael yn anodd gwneud cymhariaeth uniongyrchol o ran pwysoli'r swydd a chydnabyddiaeth ariannol.

107. Aseswyd pwysau'r rôl gan yr HayGroup fel un sy'n cyfateb i rôl Gweinidog yn Llywodraeth Cymru a Gweinidog Gwladol yn Llywodraeth y DU (gweler Tabl 6 uchod).

[24] *Gweinidog Gwladol, Tŷ'r Cyffredin*

108. Yn ein barn ni, mae'r rôl yn un bwysig ac mae'n cario pwysau swydd sylweddol. Nid ydym yn argyhoeddedig, fodd bynnag, y dylai'r cyflog a gynigir fod ar y lefel y gallai uwch gyfreithiwr cyfansoddiadol sy'n gweithio'n llawn amser mewn practis preifat fynnu ei chael.

109. Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, cynigiwn y dylai cyfanswm cyflog y Cwnsler Cyffredinol aros ar yr un lefel â chyflog Gweinidog, hynny yw £100,000.

## Rolau'r Cynulliad Cenedlaethol

110. Mae cyfrifoldebau ychwanegol y tu hwnt i rai Aelod cyffredin o'r Cynulliad yn gysylltiedig â'r rolau a ganlyn. Yn ein barn ni, maent yn allweddol i weithrediad effeithiol y Cynulliad Cenedlaethol fel corff seneddol, ac felly'n cyfiawnhau tâl ychwanegol. Rydym yn cynnig talu cyflogau ychwanegol i ddeiliaid y swyddi amrywiol hyn gan eu bod yn arwain ac yn llywio gweithrediad strategol y sefydliad cyfan.

### *Y Llywydd*

111. Yn union fel y mae Prif Weinidog Cymru yn bennaeth cangen weithredol y llywodraeth, felly y mae'r Llywydd yn arweinydd y gangen seneddol.

112. Y Llywydd yw arweinydd y senedd, yn siarad ar ei rhan ac yn diogelu a gorfodi ei phwerau. Fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, y Llywydd sy'n gosod cyfeiriad strategol y sefydliad ei hun. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, y Llywydd sy'n arwain y gwaith o drefnu busnes ffurfiol y Cynulliad yn ogystal â chadeirio ei drafodion yn y Cyfarfod Llawn a dyfarnu ar faterion o drefn.

113. Yn hanesyddol, mae'r Llywydd wedi cael yr un tâl â Gweinidog. Cadarnhawyd y pwysau swydd hyn gan waith ymchwil yr HayGroup. Rydym yn cynnig torri'r cysylltiad hwnnw a dangos ein bod yn ystyried bod y rôl, fel arweinydd cangen ddeddfwriaethol ein cyfansoddiad, yn bwysicach na hynny.

114. Cynigiwn y dylai cyfanswm cyflog y Llywydd fod yn £105,000.

**Tabl 8: Cyflogau Llywyddion a Llefarwyr yn y DU**

| | Y DU (2014) | Yr Alban (2014) | Gogledd Iwerddon (2014) | Cymru (2014) | Cymru (cynigion ar gyfer 2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tâl Sylfaenol yr Aelodau** | £67,060 | £58,678 | £48,000 | £53,852 | **£64,000** |
| **Llefarydd/ Llywydd** | £142,826 | £102,775 | £92,000 | £95,801 | **£105,000** |

## *Y Dirprwy Lywydd*

115. Yn absenoldeb y Llywydd, y Dirprwy sy'n gyfrifol am bob un o'r un cyfrifoldebau mewn perthynas â thrafodion ffurfiol y Cynulliad. Er nad yw'n ofyniad ffurfiol o'r rôl, mae'r deiliad presennol hefyd wedi ymgymryd â nifer o rolau eraill, er enghraifft, mae'n cadeirio un o bwyllgorau craffu craidd y Cynulliad.

116. Fel mewn deddfwrfeydd eraill, ac yn y Cynulliad presennol, rydym yn cynnig talu yr un swm ar gyfer y rôl hon ag ar gyfer Dirprwy Weinidog.

117. Cynigiwn y dylai cyfanswm cyflog y Dirprwy Lywydd fod yn £85,000.

**Tabl 9: Cyflogau Dirprwy Lywyddion a Dirprwy Lefarwyr yn y DU**

| | Y DU (2014) | Yr Alban (2014) | Gogledd Iwerddon (2014) | Cymru (2014) | Cymru (cynigion y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tâl Sylfaenol yr Aelodau** | £67,060 | £58,678 | £48,000 | £53,852 | **£64,000** |
| **Dirprwy Lefarydd / Dirprwy Lywydd** | £108,430[25] | £86,300 | £57,000 | £80,237 | **£85,000** |

## *Cadeirydd Pwyllgor*

118. Caiff llawer o fusnes craidd y Cynulliad ei gynnal drwy waith ei bwyllgorau. Drwy arweinyddiaeth, llunio agendâu eu pwyllgorau, a chynrychioli eu pwyllgorau yn y Cyfarfodydd Llawn, yn y cyfryngau ac mewn bywyd cyhoeddus Cymru, mae gan Gadeiryddion pwyllgorau rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi a llywio nodau strategol y Cynulliad.

119. Yn ein hadroddiad yn 2011 ar dâl deiliaid swyddi, ceisiwyd diffinio rôl a chyfrifoldebau cadeiryddion pwyllgorau, a oedd, yn ein barn ni, yn haeddu cydnabyddiaeth ychwanegol[26]. Roeddem yn falch bod y disgrifiad swydd wedi cael ei mabwysiadu wedyn gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad a'i ledaenu fel modd o osod disgwyliadau'r Cynulliad ar ei gadeiryddion. Ers hynny, cawsom ar ddeall bod sawl cadeirydd pwyllgor wedi defnyddio'r disgrifiad rôl i gasglu adborth ar eu perfformiad gan aelodau'r pwyllgor ac eraill ac fel sail ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain.

[25] *Cadeirydd y Pwyllgor 'Ways and Means', Tŷ'r Cyffredin*

[26] ***Taliadau Deiliaid Swyddi*** *Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2011*

120. Mae'r rhain yn gamau cadarnhaol yr ydym yn croesawu. Rydym hefyd yn gefnogol iawn i'r uchelgais a gaiff ei ddisgrifio yn adroddiad Comisiwn y Cynulliad o bwyllgorau o safon fyd-eang[27] a'r pwysigrwydd a roddir i rôl cadeirydd pwyllgor.

121. Rhannwn awydd y Comisiwn, a fynegwyd y llynedd yn ei adolygiad o'r cymorth i bwyllgorau, i weld rhaglen o weithgareddau datblygiad proffesiynol systematig ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau. Er nad yw hwn yn fater y gallwn ni ei orfodi, rydym yn gobeithio y byddai holl ddeiliaid swyddi, nid cadeiryddion pwyllgorau yn unig, yn dymuno manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu a diweddaru eu sgiliau.

122. I fod yn effeithiol, bydd angen i raglen datblygiad proffesiynol sy'n benodol i gadeiryddion pwyllgorau gael cefnogaeth wirioneddol y deiliaid eu hunain, Comisiwn y Cynulliad a grwpiau'r pleidiau yn y Cynulliad.

123. Gyda chadeiryddion galluog sy'n gweithio'n galed, caiff effeithiolrwydd gwaith craffu a deddfwriaethol y Cynulliad eu gwella'n enfawr. Hebddynt, ni fydd y Cynulliad fyth yn gweithredu fel senedd o safon fyd-eang, fel y mae Comisiwn y Cynulliad yn anelu ati. I gydnabod hyn, rydym yn cynnig cynyddu'r cyflog ychwanegol a delir i gadeiryddion pwyllgorau.

124. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, mae'r Bwrdd wedi gosod dwy lefel cyflog ychwanegol ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau. Caiff cadeiryddion y Pwyllgorau craidd sy'n craffu ar ddeddfwriaeth, cyllid a pholisi eu talu ar lefel uwch, sef £12,420 ar ben y cyflog sylfaenol. Mae cadeiryddion dau bwyllgor, y Pwyllgorau Deisebau a Safonau Ymddygiad, yn cael eu talu 2/3 o'r gyfradd honno, sef £8,280 ar ben y cyflog sylfaenol. Mewn egwyddor, rydym yn hapus i barhau i ddilyn y drefn honno. Yn seiliedig ar system o bwyllgorau sy'n cyfateb yn fras i un heddiw, rydym yn cynnig y dylai'r gyfradd uwch o gyflog ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau fod yn £13,000, gan godi cyfanswm y cyflog i Aelodau sy'n dal y swydd i £77,000. Pe bai'r Cynulliad nesaf yn mabwysiadu system bwyllgorau a fyddai, yn ein barn ni, yn cyfiawnhau lefel is o daliadau ar gyfer cadeiryddion rhai pwyllgorau, cynigiwn y dylai'r gyfradd is honno fod tua 2/3 o'r gyfradd uwch, sef £8,660.

125. Fodd bynnag, ni all y Bwrdd gytuno ar ddyfarniad terfynol o dâl ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau hyd nes y bydd system bwyllgorau'r Cynulliad nesaf ar waith. Byddwn, felly, yn ailystyried y mater, i gadarnhau'r gyfradd neu'r cyfraddau terfynol, yn gynnar yn y Pumed Cynulliad.

---

[27] ***Adolygiad o'r cymorth i bwyllgorau,*** *Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2013.*

## *Comisiynydd y Cynulliad*

126. Gelwir y corff corfforaethol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiwn y Cynulliad. Mae'n cynnwys y Llywydd, a phedwar Aelod arall o'r Cynulliad, a elwir yn Gomisiynwyr.

127. Mae gan Gomisiynwyr ddyletswyddau penodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu'n annibynnol ar eu pleidiau gwleidyddol. Er y gallant ystyried barn cyd-aelodau o fewn eu grwpiau gwleidyddol, nid ydynt yn cynrychioli'r farn honno. Rhaid iddynt gydweithredu a chymryd cyfrifoldeb ar y cyd am y dyletswyddau a roddir iddynt fel Comisiwn. Mae'n ofynnol i Gomisiynwyr oruchwylio'r penderfyniadau strategol a wneir gan staff y Comisiwn o ran rheoli'r adnoddau a roddir ar waith i gefnogi gwaith y Cynulliad Cenedlaethol, a dwyn rheolwyr y Cynulliad i gyfrif.

128. Roedd adroddiad yr HayGroup yn asesu pwysau'r rôl hon i fod ychydig yn is na chadeirydd pwyllgor. Fodd bynnag, mae rôl y Comisiynwyr yn bwysig o ran y gwaith o redeg y Cynulliad a barn y Bwrdd yw y dylai fod yn gydradd â'r cyflog ychwanegol uwch a delir i gadeiryddion pwyllgorau.

129. Rydym yn cynnig y dylai'r cyflog ychwanegol i Gomisiynwyr y Cynulliad fod yn £13,000, gan godi cyfanswm y cyflog i Aelodau sy'n dal y swydd i £77,000.

## *Arweinwyr Grwpiau'r Gwrthbleidiau*

130. Mae gwrthblaid effeithiol o fewn y Cynulliad yn arwain at lywodraethu gwell. Mae arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau, felly, yn allweddol i berfformiad y Cynulliad. Er y bydd pob un yn ymgymryd â'r rôl yn unol â'i flaenoriaethau a'i arddulliau arwain ei hun, bydd yn rhaid i bob un gael gafael ar bob agwedd ar bolisi a rheoli plaid, a chyflwyno gweledigaeth i'r genedl sydd amgen nag un y Llywodraeth.

131. Yn ein hadroddiad yn 2011 ar gyflogau deiliaid swyddi, nodwyd nifer o feysydd cyfrifoldeb allweddol. Mae'r rheini'n cynnwys y canlynol:

- – pennu cyfeiriad strategol eu grŵp;
- – cyflwyno gweledigaeth amgen yn lle gweledigaeth y Llywodraeth;
- – cynnig gwrthwynebiad adeiladol i’r Llywodraeth gan gynnwys gweithio mewn consensws;
- – dwyn y Llywodraeth i gyfrif, a'i herio pan fo'n briodol;
- – dylanwadu ar bolisïau a deddfwriaeth;
- – datblygu polisïau’r blaid;
- – cynrychioli’r Cynulliad;

– gweithredu fel prif lefarydd y blaid a'i pholisïau; a

– rheoli Aelodau a staff grŵp y blaid.

132. Roedd y gwaith a wnaeth yr HayGroup yn pwysoli cyfrifoldebau'r wrthblaid fwyaf yn y Cynulliad fel rhai sy'n debyg i waith Gweinidog. Ein barn yw nad yw'r Cynulliad yn seiliedig ar fodel ddeuol San Steffan. Yn y Cynulliad, mae rôl holl arweinwyr y gwrthbleidiau yn hanfodol wrth ddwyn y Llywodraeth i gyfrif.

133. Cynigiwn, felly, i barhau i dalu arweinwyr y gwrthbleidiau lefel sylfaenol o gyflog ychwanegol i adlewyrchu cyfraniad eu rolau i gyflawni diben strategol y Cynulliad. Rydym hefyd yn cynnig parhau i dalu elfen gyfrannol, sy'n dibynnu ar faint y grŵp, i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag arwain pleidiau mwy. Caiff hyn ei gapio ar lefel Gweinidog.

134. Cynigiwn y dylai'r cyflog ychwanegol sy'n daladwy i arweinydd grŵp unrhyw wrthblaid (a ddiffinnir ar hyn o bryd gan Reolau Sefydlog y Cynulliad fel tri Aelod neu fwy) fod yr un fath â chadeirydd pwyllgor, sef £13,000. Bydd £1,000 am bob Aelod yng ngrŵp y blaid yn daladwy hyd at uchafswm cyflog (sylfaenol + ychwanegol) o £100,000 (sef cyflog Gweinidog).

**Tabl 10: Cyflogau ychwanegol presennol ac arfaethedig arweinwyr Grwpiau'r Wrthbleidiau**

| | Cyflog 2014 | Cyflog arfaethedig 2016 |
|---|---|---|
| Fformiwla Sylfaenol | £54,390 o gyflog sylfaenol, ynghyd â £12,420 + £1,000 am bob aelod grŵp hyd at £41,949 | £64,000 o gyflog sylfaenol, ynghyd â £13,000 + £1,000 am bob aelod grŵp hyd at £36,000 |
| Enghreifftiau | | |
| Arweinydd grŵp o 5 | £71,810 | £82,000 |
| Arweinydd grŵp o 10 | £76,810 | £87,000 |
| Arweinydd grŵp o 15 | £81,810 | £92,000 |

## *Y Pwyllgor Busnes*

135. Yn y Cynulliad presennol, caiff lwfansau ychwanegol eu talu i reolwyr busnes pob un o'r grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad, gyda'r swm a dderbynnir yn ddibynnol ar nifer yr Aelodau Cynulliad yn y grŵp. Rydym yn awgrymu newid hynny mewn dwy ffordd: i roi tâl i aelodau'r Pwyllgor Busnes, sef gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer trefnu a rheoli ei fusnes seneddol ffurfiol, ac i dalu swm cyfartal i bob un, waeth beth yw maint y grŵp.

136. Caiff y Pwyllgor Busnes ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n gyfrifol am drefnu busnes y Llywodraeth a'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Mae hefyd yn gyfrifol am gynnig strwythurau pwyllgorau a chylchoedd gwaith ar gychwyn Cynulliad newydd, cytuno ar

amserlenni ar gyfer ystyried deddfwriaeth gan y pwyllgorau ac ystyried diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n rheoli gweithdrefnau'r Cynulliad. Yn unol â Rheolau Sefydlog, bydd pob grŵp plaid yn y Cynulliad yn enwebu Aelod i eistedd ar y Pwyllgor Busnes er mwyn cynrychioli'r grŵp.

137. Nid yw gwaith y rheolwyr busnes hyn yn gyfyngedig i'r Pwyllgor Busnes ei hun. Gwneir un agwedd bwysig ar y rôl y tu ôl i'r llenni, yn negodi a rheoli busnes a thrafodion y Cynulliad. Rydym yn parhau i ystyried y gwaith hwn yn ffactor allweddol wrth sicrhau ymdriniaeth effeithiol o fusnes y Cynulliad.

138. Mae rôl rheolwr busnes plaid yn aml yn cyfuno â rôl y chwip. Rydym yn glir y dylid rhoi tâl i rôl y rheolwr busnes o ran ategu dibenion strategol y Cynulliad, ond ni ddylid rhoi tâl am waith mewnol fel chwip plaid wleidyddol.

139. Gan mai'r Pwyllgor Busnes yw'r dull ffurfiol o reolaeth seneddol ar gyfer pob grŵp yn y Cynulliad, rydym yn bwriadu ei ddefnyddio fel sail ar gyfer talu cyflog ychwanegol. Rydym yn cynnig na ddylai aelodau'r Pwyllgor Busnes gael cyflog ychwanegol sy'n cyfateb i 2/3 cyfradd uwch cadeirydd pwyllgor (sef £8,670 yn 2016).

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno gyda chynigion y Bwrdd Taliadau ar gyfer tâl:**

- **Y Llywydd;**
- **Y Dirprwy Lywydd;**
- **Cadeiryddion pwyllgorau;**
- **Y Comisiynwyr;**
- **Arweinwyr Grwpiau'r Gwrthbleidiau;**
- **Aelodau'r Pwyllgor Busnes;**
- **Prif Weinidog Cymru;**
- **Gweinidogion Cymru;**
- **Dirprwy Weinidogion;**
- **Y Cwnsler Cyffredinol.**

**Cwestiwn 3A: Os ydych yn anghytuno, esboniwch pam a beth y credwch yw'r lefel briodol o dâl ar gyfer y swydd honno.**

# 06. Crynodeb o'r cynigion a'r cwestiyau

## Ein cynigion

140. Wrth fynd ati, mae'r Bwrdd wedi ystyried cyflog a phensiynau gyda'i gilydd mewn ffordd y cyfeiriwn ati fel cyfanswm tâl. Credwn mai dyma'r ffordd decaf o ystyried beth y mae pob Aelod Cynulliad unigol yn ei gael gan y trethdalwr.

141. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb cryno o gynigion y Bwrdd.

**Tabl 11: Crynodeb o gynigion y Bwrdd ar gyfer 2016-17**[28]

| Cyflogau deiliaid swyddi | Cyfanswm cyflog 2015-16 | Cyfanswm tâl 2015-16 | Cyfanswm cyflog 2016-17 | Cyfanswm tâl 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad | **£54,390** | £67,300 | **£64,000*** | £74,600 |
| | | | | |
| **Rolau Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Prif Weinidog Cymru | £135,260 | £167,500 | **£140,000** | £163,200 |
| Gweinidog Cymru | £96,339 | £119,300 | **£100,000** | £116,600 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £96,339 | £119,300 | **£100,000** | £116,600 |
| Dirprwy Weinidog | £80,775 | £100,000 | **£85,000** | £99,100 |
| | | | | |
| **Rolau'r Cynulliad Cenedlaethol** | | | | |
| Y Llywydd | £96,339 | £119,300 | **£105,000** | £122,400 |
| Y Dirprwy Lywydd | £80,775 | £100,000 | **£85,000** | £99,100 |
| | | | | |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £66,810 | £82,700 | **£77,000** | £89,800 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (uwch) | £66,810 | £82,700 | **£77,000** | £89,800 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (is) | £62,670 | £77,600 | **£72,660** | £84,700 |
| Presenoldeb ar y Pwyllgor Busnes | Amh.[29] | Amh. | **£72,660** | £84,700 |
| | | | | |
| Arweinydd grŵp gwrthblaid (14)[30] | £80,810 | £100,000 | **£91,000** | £106,100 |
| Arweinydd grŵp gwrthblaid (11) | £77,630 | £96,100 | **£88,000** | £102,600 |
| Arweinydd grŵp gwrthblaid (5) | £71,810 | £88,900 | **£82,000** | £95,600 |
| | | | | |

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

142. Rydym wedi cynnwys cwestiynau penodol o'r ymgynghoriad ar ôl pob cynnig yn y ddogfen. Mae rhai yn mynd i'r afael â materion o egwyddor ond, yn gyffredinol,

[28] *Talgrynnir y ffigurau ar gyfer cyfanswm y tâl i'r 100 agosaf, gan mai amcangyfrifon yw'r rhain.*
[29] *Yn 2015 cafodd taliadau eu gwneud i reolwyr busnes waeth beth oedd maint eu grŵp. Gellir gweld y manylion llawn yn Atodiad A.*
[30] *Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn cynrychioli maint y grwpiau presennol yn y Cynulliad. Gall grwpiau yn y Cynulliad nesaf fod o wahanol feintiau ond rydym wedi defnyddio'r ffigurau cyfredol yn ein hamcanestyniad i roi cymhariaeth syml.*

rydym yn gofyn beth yw eich barn, ac os ydych yn anghytuno â'n casgliadau, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio pam y credwch y byddai ffigur gwahanol yn fwy priodol.

**Tabl 12: Cwestiynau'r ymgynghoriad**

| Mater | Cwestiynau |
|---|---|
| **Cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad** | A ydych yn cytuno â'n barn y dylai Aelodau'r Cynulliad gael cyflog sylfaenol o £64,000 yn 2016-17, sef blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad? Eglurwch eich barn os gwelwch yn dda. |
| **Mynegeio** | A ydych yn cytuno ei bod yn briodol mynegeio cyflog yr Aelodau dros bum mlynedd y Pumed Cynulliad? |
| | Os felly, a ydych yn cytuno mai ffigur ASHE ar gyfer enillion wythnosol gros canolrifol gweithwyr llawn amser yng Nghymru yw'r mynegai priodol? |
| **Cyflogau deiliaid swyddi** | A ydych yn cytuno gyda chynigion y Bwrdd Taliadau ar gyfer tâl:<br>– Prif Weinidog Cymru;<br>– Gweinidogion Cymru;<br>– Dirprwy Weinidogion;<br>– Y Cwnsler Cyffredinol<br>– Y Llywydd;<br>– Y Dirprwy Lywydd;<br>– Cadeiryddion pwyllgorau;<br>– Y Comisiynwyr;<br>– Arweinwyr Grwpiau'r Gwrthbleidiau;<br>– Aelodau'r Pwyllgor Busnes. |
| | Os ydych yn anghytuno, esboniwch pam a beth y credwch yw'r lefel briodol o dâl ar gyfer y swydd honno. |

**Mae manylion am sut i ymateb i'r ymgynghoriad i'w cael ar dudalen 4.**

# 07. Atodiad A

## Tablau data ychwanegol

**Tabl 13: Cymhariaeth lawn a newid canrannol o ran cyfanswm y tâl o 2015-16 a 2016-17**

| | 2015-16 Cyflog Aelod | 2015-16 Cyflog deiliad swydd | 2015-16 Cyfanswm cyflog | 2015-16 Cyfanswm y tâl | 2016-17 Cyflog Aelod | 2016-17 Cyflog deiliad swydd | 2016-17 Cyfanswm cyflog | 2016-17 Cyfanswm y tâl | Newid canrannol yng nghyfanswm y tâl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog Aelod | £54,390 | | £54,390 | £67,340 | £64,000 | | £64,000 | £74,620 | 10.8 |
| **Rolau Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | |
| Prif Weinidog Cymru | £54,390 | £80,870 | £135,260 | £167,450 | £64,000 | £76,000 | £140,000 | £163,240 | -2.5 |
| Gweinidog Cymru | £54,390 | £41,949 | £96,339 | £119,270 | £64,000 | £36,000 | £100,000 | £116,600 | -2.2 |
| Cwnsler Cyffredinol (os nad yw'n Aelod) | £96,339 | Amh. | £96,339 | £119,270 | £64,000 | £36,000 | £100,000 | £116,600 | -2.2 |
| Dirprwy Weinidog | £54,390 | £26,385 | £80,775 | £100,000 | £64,000 | £21,000 | £85,000 | £99,110 | -0.9 |
| | | | | | | | | | |
| **Rolau'r Cynulliad Cenedlaethol** | | | | | | | | | |
| Y Llywydd | £54,390 | £41,949 | £96,339 | £119,270 | £64,000 | £41,000 | £105,000 | £122,430 | 2.7 |
| Y Dirprwy Lywydd | £54,390 | £26,385 | £80,775 | £100,000 | £64,000 | £21,000 | £85,000 | £99,110 | -0.9 |
| | | | | | | | | | |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £54,390 | £12,420 | £66,810 | £82,710 | £64,000 | £13,000 | £77,000 | £89,780 | 8.5 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (uwch) | £54,390 | £12,420 | £66,810 | £82,710 | £64,000 | £13,000 | £77,000 | £89,780 | 8.5 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (is) | £54,390 | £8,280 | £62,670 | £77,590 | £64,000 | £8,660 | £72,660 | £84,720 | 9.2 |
| Aelodau'r | Gweler y tabl isod ar gyfer rheolwyr busnes | | | | £64,000 | £8,660 | £72,660 | £84,720 | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Busnes | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| Arweinydd gwrthblaid (14) | £54,390 | £26,420 | £80,810 | £100,040 | | £64,000 | £27,000 | £91,000 | £106,110 | | 6.1 |
| Arweinydd gwrthblaid (11) | £54,390 | £23,240 | £77,630 | £96,110 | | £64,000 | £24,000 | £88,000 | £102,610 | | 6.8 |
| Arweinydd gwrthblaid (5) | £54,390 | £17,420 | £71,810 | £88,900 | | £64,000 | £18,000 | £82,000 | £95,610 | | 7.5 |
| | | | | | | | | | | | |
| **2015 - rheolwyr busnes y pleidiau** | **ychwanegiad 2015** | **Cyfanswm y tâl** | | | | | | | | | |
| Rheolwr busnes plaid (30) | £12,420 | £82,710 | | | | | | | | | |
| Rheolwr busnes plaid (14) | £9,710 | £64,100 | | | | | | | | | |
| Rheolwr busnes plaid (11) | £8,960 | £63,350 | | | | | | | | | |
| Rheolwr busnes plaid (5) | £7,460 | £61,850 | | | | | | | | | |

**Tabl 14: Cost gyffredinol cynigion y Bwrdd Taliadau ynghylch cyflogau Aelodau'r Cynulliad**[31]

**Mae'r holl ffigurau mewn miloedd**

| Aelodau'r Cynulliad | Rhagolygon 2015-16 | Rhagolygon 2016-17 | Newid |
|---|---|---|---|
| Costau cyflog | £3,263 | £3,840 | £577 |
| Costau deiliaid swyddi | £899 | £824 | (£75) |
| Cyfraniadau pensiwn | £990 | £774 | (£216) |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **£5,152** | **£5,492** | £286 |

*Ffynhonnell: Rhagolygon gwariant Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

[31] *Sylwer mai'r ffigurau hyn yw rhagolygon tîm cyllid y Cynulliad o'r hyn a fyddai'n cael ei dalu yn ystod y blynyddoedd ariannol pe bai'r cynigion yn y ddogfen hon yn cael eu mabwysiadu.*

# 08. Atodiad B

## Crynodeb o ganlyniadau arolwg yr Aelodau

### *Cefndir*

Er mwyn llywio cynigion y Bwrdd Taliadau ar gyfer y tâl a chymorth i Aelodau'r Cynulliad yn ystod y Pumed Cynulliad anfonwyd gwahoddiad drwy e-bost a mewnrwyd yr Aelodau i'r 60 Aelod gwblhau arolwg ar-lein byr. Ategwyd cais y Bwrdd hefyd mewn e-bost gan y Llywydd.

Parhaodd cyfnod yr arolwg rhwng 15 Mai 2014 a 7 Mehefin 2014, a chafwyd cyfanswm o 17 o ymatebion. Roedd 13 ymateb yn Saesneg ac roedd 4 ymateb yn Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 28% ac efallai nad yw'r canlyniadau'n cynrychioli barn yr holl Aelodau Cynulliad.

Ysgrifennodd grŵp y blaid fwyaf at y cadeirydd yn mynegi amheuon ynghylch yr arolwg, gan ddweud na fyddent yn ymateb ac y byddai'n well ganddynt roi eu barn mewn ffyrdd eraill ee drwy grŵp cynrychiadol yr Aelodau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Mae'r gyfradd ymateb yn is nag yn yr arolwg blaenorol a gynhaliwyd yn 2011 pryd yr ymatebodd 22 o Aelodau (37%).

Roedd yr arolwg yn ddienw ac nid oedd pawb wedi ateb pob cwestiwn. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn.

### Blaenoriaethu cyfrifoldebau'r Aelodau

Gofynnwyd i ymatebwyr wrth iddynt gyflawni eu rôl bresennol sut y byddent yn graddio nifer o swyddogaethau yn ôl pwysigrwydd.

Ymatebodd tua 17 o Aelodau i'r cwestiwn hwn, ac mae eu hatebion i'w gweld yn y tabl isod.

**Ffigur 1: Wrth gyflawni eich rôl bresennol, sut y byddech yn graddio'r canlynol yn nhrefn pwysigrwydd? 1 = mwyaf pwysig a 7 = lleiaf pwysig**

| | Sgôr | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Cefnogi my mhlaid | 17.6 | 0.0 | 0.0 | 11.8 | 11.8 | 17.6 | 41.2 |
| Dwyn y Llywodraeth i gyfrif ar bolisi a chyllid | 17.6 | 47.1 | 23.5 | 11.8 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Craffu ar ddeddfwriaeth | 17.6 | 17.6 | 35.3 | 11.8 | 11.8 | 0.0 | 5.9 |
| Ymdrin â gwaith achos etholaethol | 23.5 | 23.5 | 17.6 | 17.6 | 5.9 | 0.0 | 11.8 |
| Monitro perfformiad a diogelu/hybu buddiannau'r etholaeth | 23.5 | 5.9 | 5.9 | 11.8 | 47.1 | 5.9 | 0.0 |
| Dyfeisio a hyrwyddo opsiynau polisi sy'n briodol i Gymru | 0.0 | 0.0 | 17.6 | 11.8 | 17.6 | 47.1 | 5.9 |
| Cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'ch rôl fel deiliad swydd ychwanegol | 0.0 | 5.9 | 0.0 | 23.5 | 5.9 | 29.4 | 35.3 |
| | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |

Ymdrin â gwaith achos etholaethol a monitro perfformiad a diogelu/hyrwyddo buddiannau etholaeth oedd y blaenoriaethau uchaf i 23.5% o ymatebwyr.  Dilynwyd hynny gan ddwyn y Llywodraeth i gyfrif o ran polisi a chyllid, craffu ar ddeddfwriaeth a chefnogi fy mhlaid, gydag 17.6% yn ystyried mai hynny sydd bwysicaf. Ni ddywedodd unrhyw Aelod Cynulliad mai dyfeisio a hyrwyddo opsiynau polisi yng Nghymru neu'r cyfrifoldebau a oedd yn gysylltiedig â'u rôl fel deiliad swydd ychwanegol oedd eu prif flaenoriaeth.

### Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae realiti eich gwaith fel Aelod Cynulliad yn y Pedwerydd Cynulliad yn wahanol i'r hyn yr oeddech yn ei ddisgwyl pan gawsoch eich ethol?

O'r 11 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, amlinellodd llawer nad oeddynt wedi disgwyl llwyth gwaith mor drwm, a oedd yn deillio'n bennaf o'r gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer busnes y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, addasu i newidiadau yn y broses ddeddfwriaethol a'r cynnydd mewn gwaith achos.

### Beth y gall y Bwrdd Taliadau ei wneud i helpu Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu cyfrifoldebau yn fwy effeithiol?

O'r 11 ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd llawer fod angen peth hyblygrwydd o ran rheoli cyllideb eu swyddfeydd, yn arbennig o ran cyflogi staff a chomisiynu gwaith ymchwil.

Amlinellodd rhai y galwadau sydd ar y rôl a pha mor bwysig ydoedd i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o'r heriau hyn wrth ddod i'w gasgliadau.

**O ystyried cyfrifoldebau'r rôl, a ydych yn credu bod y lefel hon o gyflog sylfaenol yn rhy isel, yn eithaf teg neu'n rhy uchel?**

O'r 15 o ymatebion a ddaeth i law dywedodd wyth (53.3%) fod y lefelau cyflog yn eithaf teg, roedd saith (46.7%) yn teimlo eu bod yn rhy isel ac ni nododd unrhyw un eu bod yn rhy uchel.

**Ym mha un o'r bandiau canlynol y dylai cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad fod yn eich barn chi?**

**< £50k, £50-60k, £60-70k, >£70k**

Nododd saith ymatebydd (46.7%) y dylai'r cyflog sylfaenol i Aelod Cynulliad fod rhwng £50,000 a £60,000, a nododd saith y dylai fod rhwng £60,000 a £70,000. Dywedodd un ymatebydd y dylai cyflogau Aelodau'r Cynulliad fod dros £70,000.


**Faint y dylai'r Comisiwn ei gyfrannu at gynllun pensiwn Aelod Cynulliad fel canran o gyfanswm taliadau'r Aelod?**

Cafwyd gwahaniaeth barn ym mhob un o'r 12 ymateb i'r cwestiwn hwn. Nododd y rhan fwyaf fod y lefel bresennol yn briodol. Roedd dau yn galw am gynnydd bach. Roedd un yn awgrymu torri cyfraniad y Comisiwn, ond dyblu cyfraniad yr Aelod.

**Lwfansau ychwanegol ar gyfer deiliaid swyddi**

Gofynnwyd i Aelodau ateb 'Dylid' neu 'Na ddylid' pan ofynnwyd a ddylid rhoi tâl ychwanegol ar gyfer swyddi gwahanol. Mae Ffigur 4 isod yn dangos bod yr holl ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn credu y dylid rhoi tâl ychwanegol i rolau Prif Weinidog Cymru, y Dirprwy Brif Weinidog, Gweinidog Cymru, Dirprwy Weinidog a Chadeirydd Pwyllgor. Dywedodd chwarter yr ymatebwyr na ddylid rhoi tâl ychwanegol i'r Cwnsler Cyffredinol (os nad yw'n Aelod Cynulliad).


**Ffigur 2: Ydych chi'n credu y dylai lwfans ychwanegol gael ei dalu mewn perthynas â phob un o'r swyddogaethau a restrir isod?**




Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i'r rhai o arolwg 2011 lle dywedodd pob ymatebydd y dylid rhoi tâl ychwanegol i rolau'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a'r Dirprwy Weinidogion. Fodd bynnag, roedd canran uwch o ymatebwyr yn arolwg 2011 yn nodi na ddylid talu lwfansau ychwanegol i rai swyddi. Yn 2011, roedd 36% o ymatebwyr yn teimlo na ddylai Rheolwyr Busnes y gwrthbleidiau gael tâl ychwanegol, ynghyd â 32% o ymatebwyr a ddywedodd na ddylai Comisiynwyr y Cynulliad gael tâl ychwanegol.

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn blaenorol yn arolwg 2014 nodi a yw'r lwfansau ychwanegol yn rhy uchel, yn eithaf teg neu'n rhy isel. Mae ffigur 5 isod yn dangos bod dros dri chwarter yr ymatebwyr o'r farn bod y lwfansau ychwanegol ar gyfer y rolau canlynol yn eithaf teg: Comisiynydd y Cynulliad (90%), Rheolwyr Busnes yr Wrthblaid (77.8%) a Rheolwr Busnes y Llywodraeth (77.8%). Dywedodd dros draean (36.4%) fod y lwfans ar gyfer rôl y Prif Weinidog yn rhy isel ac roedd 30% yn teimlo bod lwfansau ar gyfer rolau cadeiryddion pwyllgorau a Dirprwy Weinidogion yn rhy isel. Roedd hanner yr ymatebwyr wedi nodi bod y lwfans ar gyfer rôl y Cwnsler Cyffredinol (boed yn Aelod Cynulliad ai peidio) yn rhy uchel.

**Ffigur 3: Os ydyw, a yw'r swm presennol yn iawn, yn rhy uchel neu'n rhy isel?**




**Pa newidiadau yr hoffech eu gweld i'r system bresennol o lwfansau ar gyfer deiliaid swyddi ychwanegol, a pham.**

Roedd gwahanol safbwyntiau ar draws y saith ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda rhai yn datgan y dylai'r gofynion cynyddol ar waith cadeiryddion pwyllgorau gael ei gydnabod. Teimlai rhai fod cyflog y Cwnsler Cyffredinol yn rhy uchel, a dywedodd un ymateb, o ystyried y pwerau ychwanegol o ran deddfwriaeth a threthi, y byddai rôl Aelodau'r Cynulliad gyfwerth â rôl Aelodau Seneddol ac Aelodau Senedd yr Alban, ac y dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn unrhyw benderfyniad ar gyflogau. Roedd un ymateb yn cwestiynu pam fod y Prif Weinidog yn cael y cyflog y mae'n ei gael.

**A ydych wedi gallu recriwtio staff â'r sgiliau priodol i helpu i gyflawni'r rôl?**

O'r 15 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 12 (80%) yn dweud eu bod wedi gallu recriwtio staff â'r sgiliau priodol.

Roedd y tri Aelod Cynulliad a atebodd 'na' yn teimlo bod y cyflog yn rhy isel i ddenu staff â chymwysterau a phrofiad addas:

**Pa newidiadau fyddech chi'n hoffi eu gweld o ran y ffordd y mae staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn cael eu recriwtio a'u cyflogi?**

O'r wyth ymateb i'r cwestiwn hwn, dywedodd llawer o'r Aelodau Cynulliad eu bod angen mwy o hyblygrwydd o ran rheoli telerau, amodau a thâl eu staff. Teimlai rhai fod angen i'r cyflogau

adlewyrchu cymwysterau'r staff, a theimlai eraill eu bod wedi cael trafferth i ddal gafael ar staff o'r radd flaenaf. Cododd un Aelod Cynulliad bryderon o ran y cyfnod rhybudd ar gyfer staff yn y chwe mis cyntaf. Nododd dau bod y system bresennol yn briodol.

**Ydych chi wedi defnyddio lwfans y Gronfa Polisi ac Ymchwil?**

Dywedodd wyth o blith 14 (57%) eu bod wedi defnyddio'r Gronfa.

**Pa newidiadau, os o gwbl, y byddech yn hoffi gweld y Bwrdd Taliadau yn eu gwneud er mwyn eich galluogi i gael cyngor ac arbenigedd ychwanegol o ran ymchwil?**

Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Cronfa arbennig i gefnogi deddfwriaeth;
- Cyflwyno rôl uwch-gynghorydd, fel yr awgrymwyd eisoes;
- Cynyddu'r gronfa polisi ac ymchwil;
- Rhagor o staff amser llawn/mwy o lwfans staffio;

**Lwfansau**

Gofynnwyd i'r Aelodau a hoffent weld unrhyw newidiadau i'r lwfansau canlynol: lwfans costau swyddfa, llety preswyl ar gyfer Aelodau yn yr ardal allanol, aros mewn gwesty yng Nghaerdydd ar gyfer Aelodau yn yr ardaloedd canolradd neu fewnol, teithio o fewn Cymru a theithio estynedig a chymorth ar gyfer grwpiau.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi gweld y lwfansau'n cynyddu i adlewyrchu newidiadau posibl i'r Cynulliad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Dywedodd bron pob un o'r rhai a ymatebodd yr hoffent weld rhagor o hyblygrwydd yn y system.

**Beth yw eich barn am effeithiolrwydd y dulliau cyfathrebu rhwng y Bwrdd ac Aelodau'r Cynulliad?**

O 14 o ymatebwyr, dywedodd naw fod hyn yn foddhaol, dywedodd tri ei fod yn wael a dywedodd dau ei fod yn dda.

O ran gwelliannau i sianeli cyfathrebu, cawsom chwech awgrym a oedd yn cynnwys:

- Mae angen i'r Bwrdd ddeall y rôl a'r cyd-destun o safbwynt Aelod Cynulliad;
- Byddai cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng y Bwrdd a'r Aelodau yn cael ei groesawu fwy na gohebiaeth ysgrifenedig.

**Ar y cyfan, pa mor dda y mae'r pecyn presennol o gymorth ariannol wedi eich cynorthwyo i gyflawni eich rôl fel Aelod Cynulliad?**

O 14 o ymatebwyr, dywedodd pedwar eu bod wedi cael cefnogaeth wael, dywedodd pedwar ei fod wedi rhoi cefnogaeth dda iddynt, a niwtral oedd ymateb chwech.

**Unrhyw sylwadau eraill**

Roedd y sylwadau ychwanegol yn cynnwys:

- Mae cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn wael o gymharu â chyflogau awdurdodau lleol.
- Dylid cael lwfans gofalu, ailwampio'r rheolau yn llwyr o ran llety, a lwfans milltiroedd sy'n cyfateb i’r milltiroedd a deithir.
- Nid yw'r system bresennol o lwfansau swyddfa yn cymryd i ystyriaeth gwerth eiddo lleol, a dylai fod hyblygrwydd i brynu dodrefn swyddfa yn lleol.